



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Strategaeth Genedlaethol ar Drais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol – 2016 - 2021

Gwybodaeth

Dyddiad cyhoeddi: Tachwedd 2016

Cynnwys

Rhagair y Gweinidog	1
Cyflwyniad	3
Pam ei bod hi'n bwysig mynd i'r afael â Thrais yn Erbyn Menywod,	
Cam-drinDomestig a Thrais Rhywiol	12
Pwy y mae angen eu cynnwys?	20
Gweledigaeth	21
Amcanion	22
Atal	24
Amddiffyn	30
Cymorth	32
Mesur cynnydd y strategaeth	35
Atodiad 1	36

Rhagair gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant

Yn 2010 fe gyhoeddodd ni 'Yr Hawl i fod yn Ddiogel', ein Strategaeth gyntaf ar gyfer mynd i'r afael â phob math o drais yn erbyn menywod, a oedd yn nodi 4 blaenoriaeth allweddol: atal a chodi ymwybyddiaeth, rhoi cymorth i ddiodefwyr a phlant, gwella ymateb asiantaethau cyfiawnder troseddol, a gwella ymateb gwasanaethau iechyd ac asiantaethau eraill.

Chwe blynedd yn ddiweddarach, mae'r Strategaeth hon yn nodi ein hymrwymiad newydd i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yng Nghymru. Rydym yn parhau i gydweithio'n agos gyda'r Swyddfa Gartref ac asiantaethau cyfiawnder troseddol yng Nghymru i sicrhau bod yr holl bartion yn cydweithio, ar draws cyfrifoldebau sydd wedi'u datganoli a sydd heb eu datganoli, i gyrraedd ein nodau.

Mae angen i wasanaethau cyhoeddus gydweithio i amddiffyn pobl sy'n profi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol rhag dioddef unrhyw niwed pellach, ac amddiffyn unrhyw blant o fewn y teulu.

Diben Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 ("y Ddeddf") yw gwella trefniadau atal, amddiffyn a chymorth i bobl yr effeithir arnynt gan drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, ac rydym yn gwneud cynnydd da o ran ei gweithredu.

Rydym wedi cyhoeddi'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol a fydd yn helpu gweithwyr proffesiynol i ymdrin ag achosion lle datgelir camdriniaeth a sicrhau bod hyfforddiant cyson ar gael i weithwyr proffesiynol arbenigol. Rhan allweddol o'r Fframwaith yw'r pecyn e-ddysgu, a gyhoeddwyd yn 2015. Bydd y pecyn e-ddysgu'n codi ymwybyddiaeth chwarter miliwn o weithwyr yn y gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru dros y 2 flynedd nesaf.

Rydym yn datblygu "Gofyn a Gweithredu". Ein nod yw y bydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i weithwyr proffesiynol megis Ymwelwyr Iechyd a Swyddogion Tai adnabod symptomau camdriniaeth a gofyn i gleientiaid a ydynt yn cael eu cam-drin.

Er mwyn ein galluogi i atal trais a chamdriniaeth yn y dyfodol, mae'n rhaid inni ganolbwyntio ar blant, i wneud yn siŵr eu bod yn deall beth sy'n gyfystyr â pherthynas iach a sut i adnabod symptomau perthnasoedd nad ydynt yn iach. Hyd yma rydym wedi cyhoeddi Canllaw Arferion Da Dull Addysg Gyfan, a gynhyrwyd gan Cymorth i Ferched Cymru a chanllawiau codi ymwybyddiaeth i lywodraethwyr ysgolion, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2016.

Rydym wedi cymryd camau arwyddocaol i leihau nifer yr achosion o Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod, Priodasau dan Orfod a Thrais ar sail Anrhydedd ac i amddiffyn diodefwyr yr arferion hyn.

Rydym yn gwybod bod gweithio gyda'r goroeswyr a gwranddo arnynt yn elfen hanfodol o'n gwaith, a rhaid i'w profiadau gyfrannu at ein polisiau a'n gwasanaethau. O ganlyniad, rydym yn gweithio gyda dioddefwyr a goroeswyr i'n helpu i lunio ein dull gweithredu parhaus.

Ar gyfer y dyfodol, gwyddom mai rhan fawr o fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol fydd canolbwyntio ymhellach ar sicrhau bod y rhai sy'n cyflawni troseddau o'r fath yn atebol am eu gweithredoedd, a rhoi cyfle i newid ymddygiad. Byddwn yn gweithio gyda sefydliadau perthnasol ar ganllawiau ynghylch gweithio gyda chyflawnwyr.

Ni fydd gwella ansawdd gwasanaethau, a'r mynediad atynt, yn ogystal â thrawsnewid agweddau ac ymddygiadau cymdeithasol, yn rhwydd. Fodd bynnag, rydym yn gobeithio y bydd yr amcanion a nodir yn y Strategaeth hon yn parhau i adeiladu ar y sylfeini hyn sydd eisoes wedi cael eu gosod ac yn creu sector cryfach, mwy cydnerth i gefnogi unigolion a theuluoedd sydd naill ai mewn perygl, neu sy'n ymgodymu â chanlyniadau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.



Carl Sargeant AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant

1. CYFLWYNIAD

Rydym am wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru i greu cenedl a chymdeithas sy'n llewyrchus, yn gydnherth, yn gydynus, yn iachach ac yn fwy cyfartal. Dim ond os yw unigolion a grwpiau yn ein cymunedau'n gallu byw heb ofn trais a chamdriniaeth y byddwn yn gallu cyflawni hyn.

Yn 2010, fe wnaeth strategaeth Yr Hawl i Fod yn Ddiogel nodi rhaglen weithredu integredig, ar draws y Llywodraeth i fynd i'r afael â phob math o drais yn erbyn menywod a phlant.

Gwnaed cryn dipyn o gynnydd dros y chwe blynedd ddiwethaf i wella'r ffordd yr ydym yn gweithio gyda'r rhai yr effeithir arnynt gan drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae trefniadau gweithio amlasiantaethol yn gyffredin ac mae trydydd sector cryf, arbenigol sydd wedi'i broffesiynoli yn gweithio ochr yn ochr â'r sector cyhoeddus i ddarparu gwasanaethau hanfodol ledled Cymru.

Mae llawer mwy i'w wneud o hyd, fodd bynnag, ac mae'r Ddeddf yn rhoi ffocws strategol, a statudol, ar y materion, gan gynnwys y gofyniad i fod â Strategaeth Genedlaethol.

Mae'r Strategaeth ddiwygiedig hon, sy'n cyflawni'r gofyniad yn adran 3 o'r Ddeddf, yn adeiladu ar ein cynnydd cyfunol hyd yma, ac yn rhoi blaenoriaeth i gyflawni ym meysydd atal, amddiffyn a rhoi cymorth, yn unol â diben y Ddeddf.

Mae'r Strategaeth hon yn anochel yncanolbwyntio ar faterion y mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol amdanynt; nid yw, ac ni all osod goblygiadau ar eraill.

Fodd bynnag, rydym yn cydnabod na all gamau gweithredu Gweinidogion Cymru yn unig ddileu trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, ac rydym yn cydnabod cyfraniad amhrisiadwy sefydliadau eraill, gan gynnwys gwasanaethau cyhoeddus, partneriaid sydd wedi'u datganoli ac heb eu datganoli, gwasanaethau arbenigol annibynnol trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol a sefydliadau'r sector gwirfoddol ehangach sy'n hanfodol i gyfrannu at sicrhau diben y Ddeddf.

Byddwn yn cyhoeddi fframwaith cyflawni i ategu'r Strategaeth hon. Bydd y fframwaith draws-Lywodraethol hwn yn cael ei lunio ar y cyd â rhanddeiliaid allweddol, a bydd yn nodi sut y byddwn yn cyflawni'r camau gweithredu o fewn y Strategaeth, pa sefydliadau byddwn yn gweithio gyda nhw a'n disgwyliadau o Awdurdodau Perthnasol o ran cyfrannu at y gwaith o gyflawni ein nodau. Byddwn yn targedu'r adnoddau sydd ar gael i ni yn seiliedig ar wybodaeth i sicrhau y caiff yr arian a reolir gan Lywodraeth Cymru ei ddefnyddio'n effeithiol i gyflawni nodau'r Ddeddf a'r Strategaeth.

Ochr yn ochr â chyhoeddi'r dangosyddion cenedlaethol, bydd y fframwaith hefyd yn nodi sut y byddwn yn mesur a ydym yn cyflawni ein nodau.

Mae'r Strategaeth hon yn darparu'r arweinyddiaeth a'r cyfeiriad a fydd yn hyrwyddo cysondeb ac arfer gorau yn y ffordd i flaenoriaethu a mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ar draws Cymru. Bydd hefyd yn canolbwyntio ar systemau ataliol, amddiffynnol a chefnogol gyda'r nod o greu Cymru rydym i gyd eisiau byw ynddi, yn awr ac yn y dyfodol, a Chymru ble gall bawb fyw heb ofn mewn perthynasoedd a chymunedau diogel a chyfartal heb drais.

Diffiniadau – cwmpas y strategaeth

Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod, fel gweddill y byd, bod trais yn erbyn menywod yn groes i hawliau dynol, yn achosi ac yn deillio o anghydraddoldeb rhwng menywod a dynion, ei fod yn digwydd i fenywod am eu bod nhw'n fenywod, a bod menywod yn cael eu heffeithio'n anghymesur gan bob math o drais. Yn rhyngwladol, mae hyn wedi'i gydnabod yn benodol gan Gyngor Ewrop, ar ffurf Confensiwn Cyngor Ewrop ar atal a brwydro trais yn erbyn menywod a cham-drin domestig, a'r Cenhedloedd Unedig, ar ffurf Datganiad ar Ddileu Trais yn erbyn Menywod, ac yn fwyaf diweddar yn Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig 2030.

Mae Datganiad y Cenhedloedd Unedig yn diffinio trais yn erbyn menywod fel:

- pob gweithred o drais ar sail rhywedd sy'n arwain at, neu sy'n debyg o arwain at, ddiodefaint neu niwed corfforol, rhywiol, seicolegol neu economaidd i fenywod, gan gynnwys bygythiadau o weithredoedd o'r fath, gorfodaeth neu golli rhyddid mympwyol, boed yn digwydd mewn bywyd preifat neu gyhoeddus.
- Mae hyn yn cynnwys, ymysg pethau eraill:
 - (a) Trais corfforol, rhywiol a seicolegol sy'n digwydd yn y teulu, gan gynnwys curo, cam-drin plant benywaidd yn rhywiol yn y cartref, trais yn ymwneud â gwaddol, trais o fewn priodas, anffurfio organau cenhedlu benywod ac arferion traddodiadol eraill sy'n niweidiol i fenywod, trais gan rywun ac eithrio'r priod a thrais yn ymwneud â chamfanteisio;
 - (b) Trais corfforol, rhywiol a seicolegol sy'n digwydd o fewn y gymuned yn gyffredinol, gan gynnwys trais, cam-drin rhywiol, aflonyddu rhywiol a bygwth yn y gwaith, mewn sefydliadau addysgol ac mewn mannau eraill, masnachu mewn menywod a phuteinio gorfodol;
 - (c) Trais corfforol, rhywiol a seicolegol sy'n cael ei gyflawni neu ei oddef gan y Wladwriaeth, ble bynnag y bo'n digwydd.

Er bod y Ddeddf yn cynnwys pob math o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol fel sy'n cael ei ddiffinio yn Adran 24 o'r Ddeddf, bydd

y Strategaeth hon a'r gwaith o'i chyflawni dros y 5 mlynedd nesaf yn seiliedig ar y dystiolaeth genedlaethol a byd-eang bod effaith anghymesur ar fenywod a merched oherwydd cam-drin domestig, trais a thrais rhywiol, camfanteisio'n rhywiol (gan gynnwys drwy'r diwydiant rhyw), caethwasiaeth fodern, priodas dan orfod, anffurfio organau cenhedlu benywod, cam-drin plant yn rhywiol, stelcio ac aflonyddu rhywiol.

Dylid darllen cyfeiriadau yn y strategaeth at "trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol" neu "trais a cham-drin" er mwyn sicrhau pob ffurf o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn cael ei gynnwys.

Mae mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn arwain at ganlyniadau pellgyrhaeddol i deuluoedd, plant, cymunedau a chymdeithas yn gyffredinol ac mae angen i gyrrff cyhoeddus Cymru fynd i'r afael â hyn mewn ffordd benodol a chymesur.

Er ei bod yn bwysig bod y Strategaeth hon yn cydnabod ac yn cyfleu profiad anghymesur menywod a merched, nid yw hyn yn dirymu trais a cham-drin yn erbyn dynion a bechgyn neu drais neu gam-drin gan fenywod. Mae'r Strategaeth hon yn cydnabod y gall unrhyw un (menywod, dynion, plant a phobl ifanc) brofi, a chael eu heffeithio gan gam-drin domestig, trais ac ymosodiadau rhywiol, cam-drin rhywiol, priodas dan orfod, cam-drin plant yn rhywiol, stelcio ac aflonyddu, aflonyddu a chamfanteisio'n rhywiol. Gall hyn ddigwydd mewn unrhyw berthynas ni waeth pa bynnag ryw, oedran, ethnigrwydd, rhywedd, rhywioldeb, anabled, crefydd neu gred, incwm, lleoliad neu ffordd o fyw.

Mewn cydnabyddiaeth o hyn, mae adran 2 o'r Ddeddf yn cynnwys darpariaeth i'w gwneud yn ofynnol i bersonau sy'n arfer swyddogaethau perthnasol dan y ddeddf ystyried, wrth ochr materion perthnasol eraill, yr angen i ddileu neu leihau ffactorau sy'n cynyddu risg neu waethygu effaith trais yn erbyn menywod a merched.

Y Cyd-destun Cymreig

Mae sawl darn o ddeddfwriaeth Gymreig sy'n effeithio ar y maes hwn ac mae amcanion a chymau gweithredu a nodir yn y Strategaeth hon yn cymryd y rhain i ystyriaeth.

Mae'r rhain fel a ganlyn:

- Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn nodi saith nod llesiant sy'n berthnasol i atal trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol a rhoi cymorth i oroeswyr, gan gynnwys Cymru sy'n fwy cyfartal, Cymru iachach a Chymru o gymunedau cydlynus, y mae'n rhaid i gyrrff yn y sector cyhoeddus weithredu i'w cyrraedd.

- Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn darparu fframwaith cyfreithiol ar gyfer gwella llesiant pobl (oedolion a phlant) y mae arnynt angen gofal a chymorth, gofaluwr y mae arnynt angen cymorth, ac ar gyfer trawsnewid gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol cynnal asesiadau o anghenion y boblogaeth leol i lywio datblygiad strategaethau lleol (gyda'r rhai cyntaf i'w cwblhau fan bellaf erbyn 1 Ebrill 2017).
- Mae Deddf Tai (Cymru) 2014 yn sefydlu mewn deddfwriaeth rôl yr awdurdod lleol o ran atal a lliniaru digartrefedd. Mae'r Ddeddf hon yn nodi y dylid ystyried a yw person neu aelod o aelwyd y person hwnnw mewn perygl o gael ei gam-drin, gan gynnwys cam-drin domestig, fel un o'r ffactorau wrth benderfynu a yw'n rhesymol parhau i fyw mewn llety.
- Mae Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 yn nodi dull newydd mewn perthynas â chontractau ar y cyd a fydd yn helpu goroeswyr trwy alluogi cyflawnwyr i gael eu targedu ar gyfer eu troi allan.

Cyd-destun y DU

Mae'r Strategaeth hon yn bodoli mewn cyd-destun ehangach yn y DU ac yn fyd-eang ac rydym yn ymrwymedig i weithio gyda'n holl bartneriaid, yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol i gyrraedd ein nodau.

Ni fydd modd mynd i'r afael yn llwyddiannus â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol trwy gamau gweithredu gan Weinidogion Cymru yn unig. Mae Gweinidogion Cymru yn ymrwymedig i gynnal a datblygu perthnasoedd gweithio agos gyda phartneriaid eraill yn y sector cyhoeddus, y llywodraeth a'r sector gwirfoddol yn yr ymdrech hwn. Mae'r partneriaid yn cynnwys Llywodraeth Leol o ran arfer eu hamryw swyddogaethau megis Gwasanaethau Cymdeithasol, Addysg a Thai, Byrddau Iechyd Lleol, yr Heddlu, Comisiynwyr Heddlu a Throseddau, y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr, sefydliadau heb eu datganoli a rhwydwaith genedlaethol y darparwyr gwasanaethau arbenigol annibynnol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Mae'r strategaeth gan Lywodraeth y DU, 'Ending Violence Against Women and Girls Strategy 2016-2020', yn adeiladu ar nifer o fentrau gan Lywodraeth y DU gan gynnwys cyflwyno trosedd newydd, sef ymddygiad rheolaethol neu orfodol, y Ddeddf Caethwasiaeth Fodern, Gorchmynion Amddiffyn rhag Trais Domestig dan Ddeddf Troseddau a Diogelwch 2010, y Cynllun Datgelu Trais Domestig, Gorchmynion Amddiffyn rhag Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod dan Ddeddf Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod 2003 ("Deddf 2003") a dyletswydd orfodol i adrodd am achosion o Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod a fewnosodwyd yn Neddf 2003 gan Ddeddf Troseddau Difrifol 2015, a chryfhau mesurau i reoli troseddwr rhyw neu'r rhai sy'n achosi risg o niwed rhywiol. Mae strategaeth Llywodraeth y DU yn gosod nifer o gamau gweithredu sy'n berthnasol i Gymru. Ymysg rhain mae camau

gweithredu yn ymwneud â'r Datganiad Disgwyliadau Cenedlaethol, comisiynu adnoddau a chyflwyno Cronfa Gweddnewid Trais yn erbyn Menywod a Merched y Swyddfa Gartref.

Byddwn yn gweithio gyda'r Swyddfa Gartref i nodi cyfleoedd yng Nghymru i ategu, gwella a chefnogi'r gwaith o gyflawni'r Strategaeth hon.

Yn 2014, fe gyhoeddodd y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol (NICE) y canllaw "*Domestic violence and abuse: how health services, social care and the organisations they work with can respond effectively*". Mae'r canllaw hwn, sy'n berthnasol ledled Cymru a Lloegr, yn amlygu'r ffaith bod cam-drin domestig yn fater cymhleth sy'n galw am ymdriniaeth sensitif gan ystod o weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol. Mae'r gost, o ran pobl ac o safbwynt economaidd, mor sylweddol fel bod hyd yn oed ymyriadau nad ydynt ond yn cael effaith fach iawn yn gost-effeithiol.

Yn 2016, cyhoeddodd NICE Safonau Ansawdd Cam-drin Domestig pellach ar gyfer darparwyr gofal iechyd. Mae gan Lywodraeth Cymru gytundeb gyda NICE sy'n cwmpasu canllawiau'r Sefydliad, ac mae disgwyliad bod cyrff y GIG yng Nghymru'n rhoi ystyriaeth lawn i'r argymhellion a wneir gan y Sefydliad wrth gomisiynu a darparu gwasanaethau ar gyfer cleifion.

Mae canllaw NICE ar gyfer pawb sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol y mae eu gwaith yn dod â hwy i gysylltiad â phobl sy'n profi neu'n cyflawni trais a cham-drin domestig. Mae hyn yn cynnwys: pobl sy'n gweithio mewn lleoliadau cyfiawnder troseddol a chanolfannau cadw, comisiynwyr gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys grwpiau comisiynu clinigol ac awdurdodau lleol, a staff sy'n gweithio i wasanaethau trais a cham-drin domestig arbenigol. Gallai'r olaf o'r rhain fod yn gweithio mewn awdurdodau lleol, mewn Byrddau Iechyd Lleol ac mewn sefydliadau eraill yn y sectorau cyhoeddus, preifat, gwirfoddol a chymunedol. Mae'r canllaw wedi'i fwriadu ar gyfer partneriaethau strategol hefyd.

Y cyd-destun byd-eang

Mae Llywodraeth Cymru'n cefnogi safonau, egwyddorion a gweithredoedd Confensiwn Cyngor Ewrop ar atal a brwydro yn erbyn trais yn erbyn menywod a thrais domestig ('Confensiwn Istanbul'), y mae'r DU wedi'i lofnodi. Mae'n gosod isafswm safonau i lywodraethau eu cyrraedd er mwyn atal trais yn erbyn menywod, diogelu'r dioddefwyr ac erlyn y rhai sy'n cyflawni'r troseddau, gan gynnwys:

- a) Amddiffyn menywod rhag pob math o drais, ac atal a dileu trais yn erbyn menywod a thrais domestig ac erlyn cyflawnwyr y trais hwnnw;
- b) Cyfrannu at ddileu pob math o wahaniaethu yn erbyn menywod a hybu cydraddoldeb gwirioneddol rhwng menywod a dynion, gan gynnwys trwy rymuso menywod;

c) Dylunio fframwaith cynhwysfawr, polisïau a mesurau ar gyfer amddiffyn a rhoi cymorth i holl ddiodefwyr trais yn erbyn menywod a thrais domestig;

d) Hybu cydweithredu rhyngwladol gyda golwg ar ddileu trais yn erbyn menywod a thrais domestig;

e) Rhoi cefnogaeth a chymorth i sefydliadau ac asiantaethau gorfodi'r gyfraith i gydweithredu'n effeithiol er mwyn mabwysiadu dull integredig o ddileu trais yn erbyn menywod a thrais domestig.

Mae'r Strategaeth hon yn cryfhau ymhellach ein hymrwymiad i egwyddorion y Confensiwn. Diben y Ddeddf yw atal, amddiffyn a rhoi cymorth sy'n cysylltu â dibenion y Confensiwn a nodir uchod. Trwy weithio i gyflawni dibenion y Ddeddf, mae cysylltiad uniongyrchol rhwng y Strategaeth hon a nifer o ddarpariaethau'r Confensiwn, gan gynnwys:

- a) Trwy addysgu ein plant a'n pobl ifanc am berthnasoedd iach (erthyglau 12 ac 14);
- b) Trwy hyfforddi gweithwyr proffesiynol a gweithwyr eraill yn y sector cyhoeddus trwy'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol (erthyglau 12 a 15);
- c) Trwy godi ymwybyddiaeth y cyhoedd (erthyglau 12 ac 13);
- d) Trwy gefnogi ac annog dulliau cydweithredol rhwng awdurdodau perthnasol a darparwyr eraill a thrwy gyhoeddi canllawiau comisiynu (erthygl 7);
- e) Trwy ddatblygu gwaith ar raglenni ar gyfer cyflawnwyr (erthyglau 12 ac 16);
- f) Trwy gefnogi awdurdodau perthnasol i ddarparu gwasanaethau cymorth uniongyrchol, tymor byr a thymor hir i'r holl ddiodefwyr benywaidd a'u plant ar sail anghenion lleol a rhanbarthol (erthyglau 22 a 25);
- g) Trwy barhau i ddarparu cymorth arbenigol gan gynnwys llochesi a chymorth fel y bo angen i'r rhai sydd wedi dioddef trais rhywiol (erthyglau 23 – 25);
- h) Trwy gydnabod plant a phobl ifanc fel diodefwyr a thystion a darparu cymorth (erthygl 26).

Yn rhyngwladol, mae'r Confensiwn ar Ddileu pob Math o Wahaniaethu yn erbyn Menywod (CEDAW) wedi darparu llwyfan ar gyfer mynd i'r afael â gwahaniaethu yn erbyn menywod. Mae gwaith i gyflawni dibenion y Ddeddf yn cysylltu â dibenion y Confensiwn yn yr ystyr:

- a) y bydd codi ymwybyddiaeth o berthnasoedd iach, ac ymgyrchoedd ymwybyddiaeth gyhoeddus i frwydro yn erbyn trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn helpu i leihau gwahaniaethu yn erbyn menywod;
- b) y bydd y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol yn cynnig hyfforddiant cymesur i gryfhau'r ymateb a ddarperir ledled Cymru i'r rhai sy'n profi'r materion hyn, gan gynnwys menywod. Bydd yn ffurfioli gofynion y rhai

sy'n cynnig gwasanaethau arbenigol a chyffredinol ac yn codi ymwybyddiaeth ac yn gwella dealltwriaeth am drais a cham-drin o'r fath.

Mae Gweinidogion Cymru dan ddyletswydd i gydymffurfio â Chonfensiwn Ewrop ar Hawliau Dynol,¹ o ran arfer eu holl swyddogaethau, fel y mae'r holl awdurdodau cyhoeddus eraill. Mae Gweinidogion Cymru hefyd yn cefnogi'r egwyddorion sydd wedi'u cynnwys yn Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig. Mae hyn yn cynnwys nod 5 – Cyflawni Cydraddoldeb rhwng y Rhywiau a grymuso'r holl fenywod a merched sy'n cynnwys targed mewn perthynas â thrais yn erbyn menywod a merched.

Mae Gweinidogion Cymru dan ddyletswydd hefyd i roi sylw i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mae'r Ddeddf, y strategaeth hon a'n rhaglen bolisi ehangach yn cefnogi dioddefwyr ac yn cydnabod trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol fel materion i blant a phobl ifanc. Mae'r camau gweithredu a'r egwyddorion sydd wedi'u cynnwys yn y strategaeth hon wedi cael eu hadnabod a'u datblygu yn ysbryd egwyddorion yr holl offerynnau rhyngwladol hyn a lle y bo'n bosibl i sefydlu'r egwyddorion hynny ymhellach yn y mesurau a fabwysiedir yng Nghymru i frwydro yn erbyn trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Goroeswyr

*"...survivors' experiences of protection and support services and systems in Wales are key to understanding their effectiveness and to informing practice and service improvements. Survivors' voices and experiences are also essential to informing prevention work and to ensuring that legislative and policy developments, the National Strategy and National Adviser's Plan place survivors' needs and experiences at the centre."*²

Mae'r Strategaeth wedi cael ei llywio gan leisiau a phrofiadau goroeswyr. Yn gynnar yn 2016, gwahoddwyd grŵp o oroeswyr i fod yn bresennol mewn grwpiau ffocws ar draws Cymru er mwyn cyfrannu at y gwaith o lunio blaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Roedd 66 o oroeswyr yn bresennol yn y grwpiau ffocws ar draws pob rhan o Gymru, pobl a oedd rhyngddynt wedi profi amrywiaeth o drais a chamdriniaeth gan gynnwys cam-drin domestig, trais rhywiol, priodas dan orfod, anffurfio organau cenedlu benywod, 'trais ar sail anrhydedd', camfanteisio rhywiol, masnachu mewn pobl a cham-drin plant yn rhywiol. Lluniwyd adroddiad am eu canfyddiadau a'u hargymhellion i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru³.

Nododd y goroeswyr 10 prif argymhelliad i Lywodraeth Cymru:

¹ Gweler Adran 81(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

² Are you listening and am I being heard? Survivor Consultation: A report of the recommendations of survivors of violence against women, domestic abuse and sexual violence in Wales, March 2016: Cymorth i Ferched Cymru / Welsh Women's Aid

³ Are you listening and am I being heard? Survivor Consultation: A report of the recommendations of survivors of violence against women, domestic abuse and sexual violence in Wales, March 2016: Cymorth i Ferched Cymru / Welsh Women's Aid

1. Gwasanaethau arbenigol penodol i blant a phobl ifanc sydd wedi dioddef neu wedi'u heffeithio gan gam-drin domestig, trais rhywiol, anffurfio organau cenhedlu benywod, priodas dan orfod, camfanteisio rhywiol neu aflonyddu.
2. Gwasanaethau arbenigol i oroeswyr cam-drin domestig a thrais rhywiol, sy'n hygyrch ac â'r adnoddau angenrheidiol i fodloni anghenion grwpiau penodol o oroeswyr.
3. Gwella arferion llysoedd teulu a CAF/CASS Cymru, a chysylltiad diogel i blant mewn achosion o gam-drin domestig a thrais rhywiol.
4. Cymorth 'gwasanaeth lloches' hygyrch ym mhob ardal, ynghyd ag opsiynau tai diogel, fforddiadwy, tymor hirach i ddarparu hyblygrwydd a dewis.
5. Grwpiau menywod a chymorth cymheiriaid i leihau unigedd a chynyddu gofod annibynnol er mwyn codi hyder a hunan-barch, a grymuso.
6. Mynediad cyfartal at ddiogelwch, cymorth, amddiffyniad a chyfiawnder, a chyllid i fyw'n annibynnol, beth bynnag yw statws mewnfudo'r goroeswyr.
7. Gwasanaethau cwnsela a therapiwtig ar gyfer goroeswyr sydd ar gael pan fo angen ac yn briodol i'r oed, ac sy'n helpu i gryfhau ac adfer.
8. Canolbwyntio mwy ar atal ymddygiad y sawl sy'n cyflawni'r drosedd, a phan fo rheolaeth orfodol yn nodwedd, cael y sawl sy'n cyflawni'r drosedd i adael a rhoi diwedd ar berthynas o gam-drin.
9. Gwell hyfforddiant i bob gwasanaeth ar bob agwedd o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, yn unol â phrofiadau'r goroeswyr.
10. Atal trais yn erbyn menywod rhag digwydd yn y lle cyntaf, drwy addysg orfodol ar atal mewn ysgolion a chodi ymwybyddiaeth o'r materion a'r cymorth sydd ar gael mewn cymunedau lleol.

Mae'r argymhellion a'r egwyddorion hyn a amlinellwyd gan oroeswyr yn allweddol fel sylfaen i'r Strategaeth hon a byddant yn cyfrannu ymhellach at y gwaith o ddatblygu'r Fframwaith Gyflawni. Pan fydd materion yn syrthio y tu allan i gyfrifoldebau Llywodraeth Cymru, byddwn yn nodi partneriaid perthnasol ac yn gweithio gyda nhw i fynd i'r afael â'r argymhellion a wnaed.

Mae'n rhaid i leisiau a phrofiadau goroeswyr fod yn ganolog i'r gwaith o gyfrannu at y datblygiad parhaus a'r gwaith o gyflawni deddfwriaeth, polisiau a strategaethau er mwyn sicrhau bod systemau a gwasanaethau

yn bodloni anghenion y goroeswyr orau. Mae'n bwysig ein bod yn gwranddo ar oroeswyr, ac yn gweithredu ar yr hyn y maent yn ei ddweud wrthym. Mae angen i ni sicrhau y caiff systemau priodol eu datblygu er mwyn inni allu ymgysylltu â phob goroeswr, gan gynnwys unigolion sydd ag anghenion cymhleth ac amlochrog, dynion, unigolion Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsrywiol + a phlant a phobl ifanc. Dylai ymgysylltu â goroeswyr fod yn broses barhaus sy'n cyfrannu at y gwaith o ddatblygu polisiau a gwasanaethau.

Er mwyn sicrhau bod lleisiau a phrofiadau goroeswyr yn parhau i gyfrannu at y gwaith hwn yng Nghymru, byddwn yn datblygu fframwaith cenedlaethol i ymgysylltu â goroeswyr i sicrhau ein bod yn deall anghenion a phrofiadau'r goroeswyr sydd fwyaf ar yr ymylon a'r rheini sy'n wynebu anfanteision lluosog i gael mynediad at help a chymorth. Bydd fframwaith cenedlaethol o'r fath yn sicrhau bod modd clywed lleisiau goroeswyr yn y gwaith o gyflawni ac adolygu'r Strategaeth hon ac yn cyd-fynd â'r fframwaith cyflawni a'r gwaith o ddylunio a chyflawni gwasanaethau o'r camau cynharaf.

2. PAM EI BOD YN BWYSIG MYND I'R AFAEL Â THRAIS YN ERBYN MENYWOD, CAM-DRIN DOMESTIG A THRAIS RHYWIOL

Mae trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn tramgwyddo mewn modd sylfaenol ar hawliau dynol, yn achosi ac yn deillio o anghydraddoldeb ac yn dwyn canlyniadau pellgyrhaeddol i deuluoedd, plant a chymdeithas ar y cyfan.

Ers mabwysiadu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus feddwl mwy am y tymor hir, cydweithio'n well gyda phobl a chymunedau a'i gilydd, ceisio atal problemau a dilyn dull strategol i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

Er mwyn gwireddu ein huchelgais, sef bod pawb yn byw heb ofn mewn cymunedau diogel, teg, di-drais mae angen inni fynd i'r afael â phroblemau cymdeithasol parhaus trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Er bod peth wmbredd o waith wedi cael ei wneud yng Nghymru gan Lywodraeth Cymru a phartneriaid dros y blynyddoedd diwethaf, gwyddom fod nifer yn dal i fod mewn perygl o drais neu gamdriniaeth neu'n profi trais neu gamdriniaeth.

Mae'r materion hyn yn effeithio ar ddynion a menywod ond fel y mae'r dystiolaeth isod yn dynodi, mae llawer o'r trais a'r cam-drin a gwmpesir gan y Ddeddf yn effeithio'n anghymesur ar fenywod a merched:

- Mae 1.4 miliwn o fenywod a 700,000 o ddynion 16-59 oed yn dweud eu bod wedi profi digwyddiadau cam-drin domestig yng Nghymru a Lloegr.
- Mae allosod y data hwn i Gymru'n dangos bod 11% o fenywod a 5% o ddynion y flwyddyn yn profi 'unrhyw gam-drin domestig', tra bo cyfraddau 'unrhyw ymosodiad rhywiol' yn y flwyddyn ddiwethaf hefyd yn uwch ar gyfer menywod (3.2%) na dynion (0.7%).⁴
- Yn 2011, roedd 137,000 o ferched a menywod yn byw gyda chanlyniadau anffurfio organau cenhedlu benywod yn y DU yn ôl yr amcangyfrifon⁵ ac yn 2011 roedd 60,000 o ferched dan 15 yn byw yn y DU a hwythau wedi'u geni i famau o wledydd sy'n cyflawni arferion anffurfio organau benywod ac felly wynebu risg posibl o anffurfio organau cenhedlu benywod yn ôl yr amcangyfrifon⁶. Amcangyfrifir bod 140 o ddiodefwrwr anffurfio organau cenhedlu benywod y flwyddyn yng Nghymru⁷.
- Roedd 80% o'r achosion yr ymdriniodd Uned Priodasau Dan Orfod Llywodraeth y DU â hwy yn ymwneud â diodefwrwr benywaidd; roedd

⁴ Robinson et al., Llywodraeth Cymru 'Bil Diwedd ar Drais yn Erbyn Menywod a Cham-drin Domestig (Cymru)' arfaethedig: Argymhellion gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen 2012.

⁵ Macfarlane, A. J. a Dorkenoo, E. (2014). Female Genital Mutilation in England and Wales: Updated statistical estimates of the numbers of affected women living in England and Wales and girls at risk - Interim report on provisional estimates. Llundain: Prifysgol Dinas Llundain.

⁶ ibid

⁷ Y Swyddfa Gartref a'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad 2015 – Ystadegau'r Uned Priodasau Dan Orfod

20% yn ymwneud â dioddefwyr gwrywaidd. Amcangyfrifir bod hyd at 100 o ddiodefwyr priodasau dan orfod y flwyddyn yng Nghymru⁸.

- Mae 750,000 o blant a phobl ifanc ledled y DU yn tystio i gam-drin domestig neu'n profi cam-drin domestig bob blwyddyn⁹.
- Mewn astudiaeth o bobl ifanc mewn perthnasoedd agos, roedd 25 y cant o'r merched a 18 y cant o'r bechgyn yn profi cam-drin corfforol; roedd 75 y cant o'r merched ac 14 y cant o'r bechgyn yn profi cam-drin emosiynol, a 33 y cant o'r merched ac 16 y cant o'r bechgyn yn profi cam-drin rhywiol¹⁰ Canfu fod merched nid yn unig yn profi mwy o gam-drin, ond eu bod hefyd yn profi cam-drin mwy difrifol yn fwy aml, ac yn dioddef effeithiau mwy negyddol ar eu llesiant, o'u cymharu â'r bechgyn.
- Mae 1 o bob 5 o fenywod 16-59 oed wedi profi rhyw fath o drais rhywiol ers yr oeddent yn 16 oed
- Mae 2/3 o'r holl fenywod ac 85% o fenywod ifancach wedi profi aflonyddwch rhywiol¹¹ Mae bron hanner miliwn o oedolion yn dioddef ymosodiadau rhywiol bob blwyddyn ac mae tua 85,000 o fenywod a 12,000 o ddynion yn cael eu treisio bob blwyddyn yng Nghymru a Lloegr – sef 11 oedolyn yn cael ei dreisio bob awr¹² Amcangyfrifir bod o leiaf 11 miliwn o oedolion wedi goroesi cam-drin rhywiol, boed yn gorfforol neu beidio, yn y DU¹³
- Mae 1 o bob 20 o blant wedi cael eu cam-drin yn rhywiol. Cafodd dros 90% o blant eu cam-drin yn rhywiol gan rywun y maent yn ei adnabod¹⁴

Rydym yn gwybod y canlynol hefyd ynglŷn â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol:

- Byddant yn aml yn cynnwys llawer o wahanol fathau o ymddygiad camdriniol a rheolaethol a ddefnyddir gyda'i gilydd, yn fwiadol i reoli person arall neu i fod â grym drostynt;
- Anaml y maent yn ddigwyddiad unigol ac maent fel arfer yn gwaethygu dros amser. Lle mae person yn profi digwyddiad unigol mae'r camdriniwr yn debygol o'i wneud eto, ac i eraill;
- Gallant ddigwydd i bobl o bob oed, rhywioldeb, cefndir diwylliannol, cymdeithasol ac ethnig;
- Mae'n debygol iawn bod y camdriniwr yn ddyn y mae'r dioddefwr yn ei adnabod, boed yn aelod o'r teulu, cydweithiwr neu gydymaith mewn lleoliad addysg neu o fewn y gymuned.

Mae cam-drin domestig a thrais rhywiol yn sefyll gyda'i gilydd fel troseddau ar sail rhywedd gan fod, yn ystadegol; y mwyafrif helaeth o'r diodefwyr yn fenywod a merched. Fodd bynnag, er mwyn pennu'r ffordd orau o fynd i'r

⁸ NSPCC - Radford, L. et al (2011) Child abuse and neglect in the UK today. <https://www.nspcc.org.uk/services-and-resources/research-and-resources/pre-2013/child-abuse-and-neglect-in-the-uk-today/>

⁹ www.endviolenceagainstwomen.org.uk/news/234/85-of-young-women-in-uk-have-been-sexually-harassed-in-public

¹⁰ Ystadegau RCEW

¹¹ Radford NSPCC

¹² Child Abuse and Neglect in the UK today. Radford. L et al (2011)

afael â'r materion hyn, mae'n hanfodol cydnabod nid yn unig y cysylltiadau rhwng elfennau gwahanol o'r sector trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ond hefyd y gwahaniaethau sy'n bodoli. Nid yw cam-drin domestig a thrais rhywiol bob amser yn bethau ar wahân a gall y ddau fod yn gyffredin o fewn patrwm o gam-drin sy'n cynnwys nodweddion lluosog. Yn bendant, mae yno gysylltiadau y dylid eu cydnabod. Er enghraifft mae cysylltiad profedig rhwng cam-drin domestig a cham-drin rhywiol yn ystod plentyndod gan fod pŵer a rheolaeth yn sail i'r ddau fath o gam-drin er gwaethaf eu persbectif cenedliadol a rhywedd gwahanol. Fodd bynnag, mae gan drais rhywiol y potensial i ddigwydd o fewn ystod ehangach o sefyllfaoedd.

Yn aml, mae'r profiad o drais a cham-drin yn cynnwys cyfuniad o fathau gwahanol o gam-drin. Nid yw bob tro'n gorfforol. Yn aml, mae'n cynnwys cam-drin emosiynol, seicolegol ac ariannol ac ymddygiadau rheoli a thrin eraill. Mewn llawer o achosion, defnyddir trais corfforol a rhywiol, neu fygythiadau o'r fath ochr yn ochr â'r mathau eraill hyn o gam-drin i reoli rhywun. Mae'n brofiad dryslyd, sy'n codi ofn ac yn ynysu.

Mae'r profiad o drais a cham-drin yn aml yn cynnwys cyfuniad o wahanol fathau o gam-drin. Nid yw wastad yn gorfforol. Mae'n aml yn cynnwys cam-drin emosiynol, seicolegol ac ariannol ac ymddygiadau rheolaethol ac ystrywgar eraill. Mewn llawer o achosion, defnyddir trais corfforol a rhywiol, neu fygythiadau o drais corfforol a rhywiol, ochr yn ochr â mathau eraill o gam-drin i reoli rhywun. Mae'n brofiad dryslyd, brawychus ac ynysol.

Goblygiadau Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Mae cydraddoldeb wedi'i gorffori o fewn y ffordd y caiff swyddogaethau Llywodraeth Cymru eu harfer. Mae adran 77 o Ddeddfau Llywodraeth Cymru 1998 a 2006 yn sicrhau bod Gweinidogion Cymru yn gwneud trefniadau priodol i sicrhau bod eu swyddogaethau yn cael eu harfer gan roi ystyriaeth ddyledus i'r egwyddorion y dylai fod cyfleoedd cyfartal i bawb. Mae'r dyletswyddau cydraddoldeb sector cyhoeddus yn adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn sicrhau y caiff ystyriaethau cydraddoldeb eu cynnwys ym mhopeth a wnawn. Diben hyn yw sicrhau na chânt eu hystyried fel ychwanegiadau ar ôl i'r penderfyniadau allweddol gael eu gwneud.

Mae Cynllun Cydraddoldeb Strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2016-2021 yn cynnwys amcan penodol sy'n ymwneud â'r maes gwaith hwn:

Amcan 4

- Lleihau nifer yr achosion o bob math o aflonyddu a cham-drin, gan gynnwys (ond nid yn gyfyngedig i) trais yn erbyn menywod, trosedd casineb, bwlio, cam-drin plant, cam-drin domestig a cham-drin pobl hŷn.

Bydd yr amcanion yn y Strategaeth hon yn ein helpu i gyflawni'r amcan hwnnw.

Gall fod angen mynd ati mewn ffordd arbenigol i ddarparu gwasanaethau i'r grwpiau canlynol a bydd angen i Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol ystyried hyn wrth gynnal asesiadau o anghenion ac wrth ddatblygu Strategaethau Lleol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol fel sy'n ofynnol gan y Ddeddf:

Menywod

Mae yno ofyniad cyfreithiol ar bob awdurdod cyhoeddus wrth gyflawni eu holl swyddogaethau i roi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu ac aflonyddu anghyfreithlon ar sail rhyw a hyrwyddo cydraddoldeb cyfleoedd ymysg menywod a dynion. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus gydnabod nad yw'r ddau grŵp yn dechrau o fan cyfartal ac ni fydd yr un driniaeth bob amser yn briodol. Mae gwasanaethau ar gyfer un rhyw yn gyfreithlon pan fo angen amlwg amdanynt, megis lloches i fenywod, ac nid yw dyletswyddau cydraddoldeb yn golygu y dylid torri ar wasanaethau ar gyfer un rhyw, nac y dylai gwasanaethau gael eu darparu o reidrwydd ar yr un radd ar gyfer menywod a dynion er mwyn cydnabod mai menywod yw mwyafrif o'r dioddefwyr o drais domestig, trais a cham-drin rhywiol.

Dros y degawd diwethaf, mae ymgynghoriadau â goroeswyr benywaidd wedi rhoi'r un wybodaeth dro ar ôl tro i gomisiynwyr a llunwyr polisi, sef bod menywod am gael ymatebion amserol a chyfannol i'w hanghenion lluosog, ac i lawer o fenywod mae'n bwysig bod hyn yn cael ei ddarparu mewn darpariaeth ddiogel sydd ar wahân i ddynion. Maent am i'r gwasanaeth hwn gael ei ddarparu gan weithwyr cymorth arbenigol sydd â dealltwriaeth/gwybodaeth a sgiliau ym maes trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ac maent am iddynt fod yn wasanaethau sy'n hygyrch i'r grwpiau mwyaf agored i niwed. Maent am i'r gwasanaethau hyn fod ar gael y tu allan i oriau arferol ac i ddarparu man diogel i ymgysylltu â menywod i leihau arwahanrwydd, adennill hyder, darparu seibiant a chyfle i adfer, rhannu profiadau a gwybodaeth a chael cydgefnogaeth.

Plant a phobl ifanc

Ers 2004, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn defnyddio Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn fel y sail i'w waith ar gyfer plant a phobl ifanc.

Mae trais yn erbyn menywod a phlant, gan gynnwys cam-drin domestig neu drais rhywiol mewn unrhyw uned deuluol yn fater amddiffyn plant a dylid ymdrin ag ef gan ddefnyddio'r gweithdrefnau diogelu perthnasol.

Mae llawer o fenywod sy'n ddioddefwyr trais yn fenywod â phlant, ac mae'n rhaid bod sicrhau llesiant y plant hynny'n flaenoriaeth i wasanaethau cyhoeddus a'r dioddefwr.

Mae angen inni sicrhau bod asiantaethau partner yn gallu adnabod plant sydd mewn perygl fel y gellir cymryd camau gweithredu priodol. Gwyddom eisoes fod menywod a phlant mewn mwy o berygl pan ydynt yn rhan o achosion yn y

llys teulu. Bydd yn hanfodol sicrhau bod gwasanaethau sy'n briodol i oedran a chymorth ar gael i blant sydd eu hangen.

Rydym yn ymrwymedig i ymdrin â phroblem cam-drin plant yn rhywiol yn ein cymdeithas ac i atal y broblem, a chefnogi oedolion sydd wedi dioddef cam-drin yn y gorffennol. Byddwn yn monitro'n agos cynnydd yr ymchwiliad a phan fydd y canfyddiadau'n hysbys, byddwn yn edrych ar ba gamau y gall Llywodraeth Cymru eu cymryd i fynd i'r afael ag unrhyw argymhellaid.

Pobl Hŷn

Weithiau ceir dryswch rhwng profiad o gam-drin domestig yn ddiweddarach mewn bywyd a "cham-drin pobl hŷn" (term sy'n cwmpasu pob math o drais, cam-drin ac esgeuluso a brofir gan bobl hŷn). Gall dryswch o'r fath olygu bod dioddefwyr cam-drin yn syrthio rhwng y systemau sydd wedi'u bwriadu i'w hamddiffyn.

Mae ystadegau'n ategu hyn. Mae data diweddar y Swyddfa Gartref¹⁵ yn nodi y cafodd 28 o bobl hŷn (60+ oed) yng Nghymru a Lloegr eu lladd gan aelod o'r teulu. Mae hyn yn cynrychioli 24% o'r holl ddioddefwyr. Fodd bynnag, roedd yr adroddiadau am ddigwyddiadau cam-drin domestig sy'n cynnwys pobl hŷn yn cynrychioli llai na 24% o'r holl adroddiadau a gafwyd am ddigwyddiadau.

Wrth inni weithio tuag at wella a chryfhau rôl ein Gwasanaeth Cyhoeddus o ran atal y materion hyn, mae'n hollbwysig ein bod yn gweithio i oresgyn dryswch o'r fath ac, yn lle hynny, yn sicrhau bod ein systemau a'n perthnasoedd gweithio wedi'u hintegreiddio a bod gwybodaeth a sgiliau ein cyflogaion yn addas ar gyfer canfod achosion posibl o gam-drin mor gynnar â phosibl a rhoi cymorth effeithiol, wedi'i deilwra cyn gynted â phosibl.

Gall y profiad o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol fod yn fwy niweidiol byth i ddioddefwyr lle mae'n cyd-ddigwydd ag anghenion cymhleth eraill neu amgylchiadau eraill sy'n eu gwneud yn agored i niwed. Er ei bod yn anghywir homogoneiddio pobl hŷn fel pobl "agored i niwed" neu "eiddil" mae'n bwysig bod Gwasanaethau Cyhoeddus a darparwr arbenigol yn barod ac yn meddu ar allu i gysylltu systemau diogelu i gynnig cyfres o wasanaethau cymorth sy'n mynd i'r afael â'r holl faterion y mae person hŷn sy'n profi trais a cham-drin yn eu hwynebu o bosibl.

Cymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a thrais a cham-drin

Dengys ymchwil y canlynol:

"BME women are disproportionately affected by different forms of abuse e.g. forced marriage, "honour based" violence, FGM, sexual exploitation in the

¹⁵ Homicide Index, Home Office, 2011/12 to 2014/15

form of commercial sex work, trafficking etc. the multiple vulnerabilities from these overlapping contexts makes it harder for women to flee violence”¹⁶

Gall goroeswyr wynebu rhwystrau ychwanegol i geisio cymorth, megis gwahaniaethu hiliol, stereoteipio crefyddol, ofn cywilydd a gwrthodiad cymunedol, a statws mewnfudo ansicr, y gall pob un ohonynt eu hatal rhag ceisio cymorth i gael eu hamddiffyn. Hefyd, mae goroeswyr o gymunedau ethnig lleiafrifol yn debygol o fod â rhwystrau i gael gwasanaethau, neu i ofyn amdanynt, gan gynnwys:

- Diffyg gwybodaeth ac ymwybyddiaeth am wasanaethau ac opsiynau oherwydd rhwystr ieithyddol a diffyg rhwydweithiau cymunedol cyfarwydd.
- Statws mewnfudo ansicr a dim mynediad at arian cyhoeddus.
- Ymwneud gan aelodau o'r teulu o ran cyfieithu ar y pryd a rhoi cymorth i gael mynediad at wasanaethau sy'n mynd yn groes i ddiben cyfrinachedd ac yn cynyddu risgiau o niwed.
- Pwysau cymdeithasoli ac o fewn y teulu gan ddefnyddio anrhydedd a chywilydd fel esgus. Mewn achosion o'r fath, mae menywod yn ofni na fydd eu profiadau'n cael eu dilysu mewn cyd-destun prif-ffrwd, dieithr.
- Pryderon o ran amgylchedd diwylliannol addas i weddio, arferion bwyd crefyddol-gymdeithasol penodol ac amgylchedd cyfarwydd i blant mewn llety dros dro.
- Mae menywod o gymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig nid yn unig yn ofni'r cyflawnwr, ond maent hefyd yn ofni hiliaeth a chael eu hymyleiddio mewn cymdeithas sy'n tanseilio'u hyder i fyw bywyd annibynnol.
- Ofn arwahanrwydd a hiliaeth mewn gwasanaeth prif-ffrwd.
- Mwy o debygolrwydd y bydd cyflawnwyr yn defnyddio dulliau eraill fel rhan o'r cam-drin e.e. bygythiadau o alltudio a gadael, arwahanrwydd, llithio, nifer o bartïon sydd â buddiant a thrais a gyd-oddefir gan y teulu a'r gymuned.

Menywod sy'n ymfudwyr, yn ffoaduriaid ac yn geiswyr lloches a'r rhai Heb Fynediad at Arian Cyhoeddus

Un pryder mawr i ddarparwyr gwasanaethau yw eu gallu i gynorthwyo menywod sy'n ymfudwyr, yn ffoaduriaid ac yn geiswyr lloches sydd wedi dioddef, neu sydd wrthi'n dioddef trais yn erbyn menywod ac sydd heb fynediad at arian cyhoeddus. Yn aml, gall y grŵp yma fod yn wynebu materion megis anffurfio organau cenhedlu benywod, trais ar sail 'anrhydedd' fel y'i gelwir a phriodas dan orfod, yn ogystal â materion sydd eisoes yn gymhleth o ran cam-drin domestig a thrais rhywiol. Gall materion o ran teitheb a rhwystrau diwylliannol, ieithyddol ac o ran cyfathrebu gymhlethu problemau'r menywod hyn a'u hynysu ymhellach.

¹⁶ Roy, S and Ravi.T (2012 Vital Statistics Key finding report on black, minority ethnic and refugee women's and children's experiences of gender based violence (London) Imkaan

Pobl anabl

Mae pobl anabl yn profi cyfraddau sy'n anghymesur o uwch o gam-drin domestig ac yn ei brofi am gyfnodau hirach, yn fwy difrifol ac yn fwy aml na phobl abl. Mae menywod anabl ddwywaith mor debygol o brofi trais domestig â menywod abl¹⁷ ac maent yn debygol o gael eu cam-drin dros gyfnod hirach ac o ddioddef mwy o gam-drin ac anafiadau o ganlyniad i'r cam-drin na dynion anabl¹⁸.

Cam-drin a'r Gweithle

Mae cyflogwyr sy'n dioddef trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig neu drais rhywiol yn aml yn absennol o'r gwaith neu'n perfformio'n wael, ac yn aml gall cyflawnwyr dargedu eu dioddefwyr yn y gweithle neu geisio cyfyngu ar eu mynediad at waith. Canfu adroddiad diweddar fod 52% o fenywod wedi profi aflonyddu rhywiol yn y gwaith, gan gynnwys sylwadau amhriodol, ymddygiad digroeso neu sylw rhywiol¹⁹. Mae hyn yn cael effaith ar weithgarwch busnes y cyflogwr yn ogystal â llesiant y cyflogai. Felly gall fod gan gyflogwyr rôl bwysig o ran mynd i'r afael â'r materion hyn yn eu gweithlu eu hunain.

Y Diwydiant Rhyw, Camfanteisio a Masnachu Pobl

Ein blaenoriaeth yn y cyd-destun hwn yw amddiffyn y cyhoedd; gall pobl sy'n gysylltiedig â phuteindra fod yn arbennig o agored i droseddau rhyw a throseddau treisgar eraill a gallant mewn gwirionedd fod yn ddioddefwyr troseddau camfanteisio'n rhywiol ar blant neu gaethwasiaeth fodern. Rydym am gynyddu mesurau amddiffynnol a mynediad at wasanaethau cymorth priodol ar gyfer y grŵp yma sy'n aml yn agored i niwed, a byddwn yn gweithio gyda 'Grŵp Gwaith Rhyw' Cymru i gefnogi'r gwaith o gyflawni eu cynllun gweithio. Byddwn yn sicrhau bod blaenoriaethau a chynnydd yn cyfrannu at drafodaethau yng Ngrŵp Cyngori ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.

Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsrywiol +

Fe ariannodd Llywodraeth Cymru ymchwil yn 2014 a amlygodd y rhwystrau a wynebwr gan bobl lesbiaidd, hoyw, ddeurywiol a thrawsrywiol wrth geisio mynediad at wasanaethau cam-drin domestig a thrais rhywiol. Fe amlygodd yr adroddiad rwystrau unigol, rhyngbersonol a strwythurol a diwylliannol ac fe wnaeth gyfres o argymhellion i wella mynediad at wasanaethau, gan gynnwys hyblygrwydd, mynediad cyfrinachol a chynwysoldeb.

Goroeswyr benywaidd sy'n troseddu

Gwyddom fod llawer o ddioddefwyr cam-drin rhywiol, corfforol ac emosiynol yn gallu cael eu hudo i droseddu hefyd. Yn ystadegol dangosir bod menywod

¹⁷ 1995 British Crime Survey

¹⁸ Welsh Women's Aid, Disability Wales and University of Glamorgan (2011) Domestic Abuse of Disabled Women in Wales

¹⁹ TUC and Everyday Sexism Report 2016

sy'n rhan o'r gyfundrefn cyfiawnder troseddol yn llawer mwy tebygol o fod wedi profi rhyw fath o gam-drin yn ystod eu plentyndod, ac mae llawer hefyd yn dweud eu bod wedi troseddu er mwyn ariannu arferion camddefnyddio sylweddau eu partner neu rywun arall.²⁰ Mae menywod yn tueddu i gael dedfrydau byrrach na dynion ac maent yn fwy tebygol o hunan-niweidio yn y ddalfa. Rydym yn gweithio gydag ardaloedd lleol a'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr (NOMS) yng Nghymru i sicrhau dull cydgysylltiedig mwy effeithiol o ddiwallu anghenion cymhleth y menywod hyn.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydweithio'n agos gyda NOMS a sefydliadau diogel i atal menywod rhag dod yn rhan o'r gyfundrefn cyfiawnder troseddol. Fodd bynnag, mae llawer y gellir ei wneud mewn meysydd eraill, megis iechyd, addysg, tai a gwasanaethau cymdeithasol, i helpu menywod a'u hatal rhag dod yn rhan o'r gyfundrefn cyfiawnder troseddol yn y lle cyntaf.

Creu Darpariaeth

Rydym yn cydnabod bod bylchau'n dal i fodoli o ran darparu gwasanaethau arbenigol ar gyfer goroeswyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ar draws Cymru. Gwyddom er enghraifft nad oes gan rai pobl sy'n byw mewn ardaloedd mwy gwledig fynediad at wasanaethau ac mae hyn hefyd yn wir am y rhai sy'n dioddef mathau o drais megis anffurfio organau cenhedlu benywod sydd wedi'u canoli mewn cymunedau penodol.

Mae angen dull cydweithredol o adnabod yr angen ym mhob ardal yng Nghymru fel sylfaen i lunio Strategaethau Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin domestig a Thrais Rhywiol a galluogi ardaloedd i ddiwallu anghenion dynodedig. Bydd Gweinidogion Cymru yn cefnogi ac yn cyfarwyddo comisiynwyr y mae'n eu hariannu a bydd yn gweithio gyda chomisiynwyr sy'n dal eu cyllid eu hunain i greu dull mwy integredig a strategol o ddarparu gwasanaethau sy'n diwallu'r anghenion ym mhob ardal.

Gyda'n partneriaid arbenigol, byddwn yn parhau i fynd i'r afael â'r bylchau hyn gan barhau i gefnogi'r rhai sydd eisoes yn bodoli a byddwn yn targedu adnoddau ychwanegol lle mae'r angen mwyaf.

²⁰ Corston. J. (2007) Adroddiad Corston: The need for a distinct, radically different, visibly-led, strategic, proportionate, holistic, women-centred, integrated approach
<http://www.justice.gov.uk/publications/docs/corston-report-march-2007.pdf>

3. PWY Y MAE ANGEN EU CYNNWYS?

Mae atal trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn ganolog i wella iechyd a llesiant, lleihau troseddau a'r niwed a achosir gan droseddau treisgar; diogelu plant ac oedolion; hyrwyddo addysg a dysg a hybu cydraddoldeb.

Mae trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn digwydd mewn cymunedau, mewn mannau cyhoeddus a gweithleoedd, mewn teuluoedd, y tu ôl i ddrysau caeedig a'r tu hwnt i ffiniau sefydliadau. Er mwyn cyflawni ein hamcanion mae angen inni gydweithio y tu hwnt i'r ffiniau sefydliadol hynny neu byddwn yn gwneud cam â'r rhai sydd fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas.

Mae arnom angen dull integredig i roi diwedd ar bob ffurf ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, o'r arweinwyr i'r gweithwyr proffesiynol rheng-flaen sy'n prif-ffrydio ac yn blaenoriaethu'r mater gan ei wneud yn "fusnes i bawb".

Byddwn yn cyhoeddi fframwaith cyflawni integredig sy'n amlinellu sut y byddwn, ar draws Llywodraeth Cymru, yn cyfrannu at amcanion y Strategaeth.

Yn ogystal â gweithio gyda'r Awdurdodau Perthnasol a nodir yn y Ddeddf (Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau'r GIG ac Awdurdodau Tân ac Achub), bod angen inni gydweithio gyda'r Heddlu, Comisiynwyr Heddlu a Throseddu, gwasanaethau addysg, sefydliadau tai, y trydydd sector, gwasanaethau arbenigol ar gyfer trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, goroeswyr, asiantaethau troseddau a chyfiawnder sydd heb eu datganoli a'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol er mwyn bodloni amcanion y strategaeth hon.

Bydd y Cynghorydd Cenedlaethol ar gyfer Mynd i'r Afael â Thrais yn Erbyn Menywod, mathau eraill o Drais ar Sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn cynghori ac yn cynorthwyo Gweinidogion Cymru wrth inni geisio gweithredu'r camau a amlinellir yn y Strategaeth, nodi arferion da a sicrhau gwelliannau yn y ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu.

4. GWELEDIGAETH

Mae ein gweledigaeth gyffredinol ar gyfer Cymru yn un sy'n bodloni'r saith nod llesiant:

- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang
- Cymru lewyrchus
- Cymru gydnerth
- Cymru iachach
- Cymru sy'n fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynus
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

Mae problem gymdeithasol barhaus trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn tanseilio ein cymunedau ac yn dal i fod yn rhwystr sylweddol sy'n atal Cymru rhag gwireddu'r weledigaeth hon a dod yn gymdeithas deg a llewyrchus.

Felly mae'n rhaid inni anelu at ddileu trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Rydym ni o'r farn nad yw eu bodolaeth yn anochel ac y gellir eu lleihau'n sylweddol a'u hatal gyda'r ewyllys wleidyddol, y trefniadau cydweithio a'r newid mewn diwylliant sy'n angenrheidiol. Mae angen i wasanaethau cyhoeddus gydweithio a gweithio gyda'r sector arbenigol trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol i atal trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ac i gynorthwyo ac amddiffyn dioddefwyr rhag cael niwed pellach, ac er mwyn diwallu eu hanghenion yn y ffordd orau.

Mae ein dull o fynd ati i alluogi unigolion a grwpiau yn ein cymunedau i fyw heb ofni trais a chamdriniaeth yng Nghymru yn adlewyrchu'r ffordd yr ydym yn defnyddio'r pum dull o weithio a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: Cynnwys, Atal, Integreiddio, Hirdymor a Chydweithio.

Yng Nghymru bydd yr ymdrech i ddileu trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn cyfrannu'n gryf at y nodau llesiant drwy:

- atal gwahaniaethu yn erbyn menywod a merched a hyrwyddo cydraddoldeb rhwng menywod a dynion;
- dileu pob math o drais yn erbyn pob menyw, cam-drin domestig a thrais rhywiol mewn sefyllfaoedd cyhoeddus a phreifat, gan gynnwys masnachu pobl, camfanteisio rhywiol a mathau eraill o gamfanteisio, megis camfanteisio'n rhywiol ar blant;
- cael gwared ar arferion niweidiol megis priodi'n blentyn neu'n ifanc, priodi dan orfod ac Anffurfio Organau Rhywiol Benywod.

5. AMCANION

Mae'r Strategaeth hon yn nodi'r hyn y bydd Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gyfrannu at fynd ar drywydd diben y Ddeddf. Fodd bynnag, mae'r Ddeddf hefyd yn gosod dyletswydd ar Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol i baratoi a chyhoeddi strategaethau lleol ar y cyd i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Bydd angen i'r strategaethau lleol hyn ystyried yr amcanion a nodir yn y Strategaeth Genedlaethol.

Bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi arweinyddiaeth strategol ynghylch y materion hyn ac ynghylch gweithredu'r Ddeddf. Mae'r Grŵp Cyngori ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn rhoi cyngor arbenigol i Lywodraeth Cymru i roi cymorth i ddatblygu'r Ddeddf a pholisïau a rhaglenni ategol ymhellach a'u rhoi ar waith. Bydd y Grŵp hwn hefyd yn gwirio cynnydd mewn perthynas â'r canlyniadau yn y Strategaeth hon.

Diben y Ddeddf yw gwella:

- Trefniadau ar gyfer **atal** trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol;
- Trefniadau ar gyfer **amddiffyn** dioddefwyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol;
- Y **cymorth** i bobl yr effeithir arnynt gan drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Y tri **diben** yma sy'n sail i'r Strategaeth hon ac yr ydym ni'n disgwyl i bartneriaid eu defnyddio fel sail i ystyried a datblygu eu strategaethau a'u polisïau hwy eu hunain.

Mae'r Strategaeth hon yn nodi chwe amcan y mae Gweinidogion Cymru o'r farn y byddant, o'u cyflawni, yn cyfrannu at fynd ar drywydd y diben hwnnw. Mae'r amcanion hyn yn ymwneud â sawl maes portffolio ac mae'r camau gweithredu wedi'u datblygu mewn cydweithrediad ag adrannau ar draws Llywodraeth Cymru. Caiff mwy o fanylion ynghylch yr amcanion a'r camau gweithredu y mae Gweinidogion Cymru yn cynnig eu cymryd i gyflawni'r amcanion hynny eu nodi yn yr adrannau isod a byddant yn cael eu cynnwys yn y Fframwaith Cyflawni trawslywodraethol.

Rydym hefyd yn gweithio gyda'r Ymgynghorydd Cenedlaethol ar ddatblygu Dangosyddion Cenedlaethol er mwyn inni allu mesur effeithiolrwydd yn amcanion hyn.

Mae Gweinidogion Cymru yn cydnabod y bydd gan sefydliadau ledled Cymru rôl hanfodol o ran mynd i'r afael â materion trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae'r sefydliadau hyn yn cynnwys cyrff y sector cyhoeddus, gwasanaethau arbenigol ar gyfer trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ac asiantaethau troseddu a chyfiawnder yn ogystal â'r awdurdodau eraill a nodwyd yn y Ddeddf. Trwy weithio gyda'r sefydliadau hyn a chyda goroeswyr er mwyn deall eu profiadau a gweld sut y

gellir datblygu'r system i atal trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol a rhoi cymorth i'r rhai sy'n cael y profiadau hyn, bydd modd sicrhau bod Gweinidogion Cymru yn cyflawni'r amcanion hyn yn llwyddiannus.

Mae'r Strategaeth hon yn nodi chwe amcan y mae Gweinidogion Cymru yn disgwyl eu cyflawni erbyn mis Tachwedd 2021:

Amcan 1: Cynyddu ymwybyddiaeth a herio agweddau ynghylch trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ar draws poblogaeth Cymru

Amcan 2: Cynyddu ymwybyddiaeth plant a phobl ifanc o bwysigrwydd perthnasoddi diogel, cyfartal ac iach a'r ffaith fod ymddygiad camdriniol yn anghywir bob amser

Amcan 3: Mwy o ffocws ar ddwyn cyflawnwyr i gyfrif, a darparu ymyriadau a chymorth iddynt newid eu hymddygiad gyda phwyslais ar ddiogelwch y dioddefwr

Amcan 4: Rhoi blaenoriaeth i ymyrryd yn gynnar ac atal

Amcan 5: Hyfforddi gweithwyr proffesiynol perthnasol i ddarparu ymatebion effeithiol, amserol a phriodol i ddioddefwyr a goroeswyr

Amcan 6: Rhoi mynediad cyfartal i ddioddefwyr at wasanaethau ledled Cymru, a'r rheini'n wasanaethau holistaidd o ansawdd uchel y darperir adnoddau priodol ar eu cyfer, sy'n seiliedig ar gryfderau, sy'n cael eu harwain gan anghenion ac sy'n ymatebol i rywedd

Wrth gyflawni'r amcanion hyn byddwn yn gweithio tuag at ein nod cyffredinol o weithredu drwy'r system gyfan, gan gynnwys ymyrryd ac atal cynnar i fynd i'r afael â phrofiadau niweidiol mewn plentyndod. Bydd hynny'n sicrhau bod trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn cael eu gweld yn "fusnes i bawb".

6. ATAL

Mae Llywodraeth Cymru, trwy addysg, grymuso ac ymgysylltu, yn ymrwymedig i herio agweddau ac ymddygiadau ar draws cymdeithas sy'n arwain at drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol a cheisio ffyrdd o'u hatal rhag digwydd yn y lle cyntaf neu rhag digwydd eto.

Mae tri o'r amcanion yn ategu'r diben o ran atal trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol:

Amcan 1 - Cynyddu ymwybyddiaeth a herio agweddau ynghylch trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ar draws poblogaeth Cymru

Byddwn yn parhau i herio agweddau er mwyn atal trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol rhag digwydd yn y lle cyntaf. Yn y pen draw rydym yn bwriadu creu cymdeithas nad yw'n goddef trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Dyma y mae goroeswyr wedi ei ddweud wrthym:

"Yn ein cymunedau ni mae menywod yn fwy ofnus byth ynglŷn â chodi eu llais neu rannu eu profiad gydag eraill. Mae angen inni addysgu'r cymunedau hyn fel eu bod yn gallu codi eu llais, a chael cymorth a chefnogaeth" (Goroeswr)

"Mae 'na hysbyseb ar y teledu am gam-drin plant ac maen nhw'n dangos y gwahanol fathau o bethau [mathau o gam-drin] sy'n digwydd – ac mae 'na rif i'w ffonio. Mae o'n cael ei ddangos yn aml. Mi ddylen nhw wneud rhywbeth fel'na" (Goroeswr)

"Fe ddylen nhw ddangos gwybodaeth am yr help sydd ar gael ym mhob man lle mae menywod yn mynd, fel yr archfarchnad a'r fferyllfa, a hefyd ar y radio lleol, mewn neuaddau cymuned ac ym mhob meddygfa. Neu, os ydych chi'n gweithio, dylai eich cyflogwr arddangos y wybodaeth fel mater o drefn. Dylen ni allu mynd i rywle a gweld pa help sydd ar gael" (Goroeswr)

Pa gamau fydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gyflawni'r amcan hwn?

Byddwn yn:

- datblygu fframwaith Cyfathrebu Cenedlaethol gan ymgynghori â rhanddeiliaid, er mwyn sicrhau dull mwy cydlynol a hir dymor o fynd ati i ymgysylltu a chyfathrebu. Bydd y fframwaith yn parhau i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd a newid normau, gwerthoedd, daliadau, agweddau, ymddygiadau ac arferion cymdeithasol mewn perthynas â phob math o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol;
- rhoi'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol ar waith yn llawn, gan sicrhau bod y gweithwyr proffesiynol perthnasol yn cael eu hyfforddi i ymateb yn effeithiol, yn brydlon ac yn briodol i ddiodefswyr a goroeswyr;

- herio agweddau diwylliannol a all fod yn sail i arferion niweidiol traddodiadol megis Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod, priodas dan orfod a Thrais ar sail Anrhydedd, a hynny trwy weithio gyda gwasanaethau trais yn erbyn menywod sy'n arbenigo mewn cymorth i gymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru. Byddwn yn eu cynorthwyo i ennyn ymgysylltiad a chefnogi hyrwyddwyr cymunedol i wella ymatebion cymunedol i oroeswyr trais a chamdriniaeth;
- fel rhan o'r Fframwaith Cyfathrebu Cenedlaethol byddwn yn mynd ati'n gadarnhaol i ennyn ymgysylltiad dynion a bechgyn o ran herio pob math o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Amcan 2: Cynyddu ymwybyddiaeth plant a phobl ifanc o bwysigrwydd perthnasoedd diogel, cyfartal ac iach a'r ffaith fod ymddygiad camdriniol yn anghywir bob amser

Yn y tymor hir, gwyddom fod trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn gallu cael effaith enfawr ar blant a phobl ifanc. Gall effeithio ar eu diogelwch, eu hiechyd a'u llesiant, eu cyrhaeddiad addysgol, eu perthynas â'u teuluoedd a'u cyfoedion a'u gallu i fwynhau perthnasoedd iach, hapus a llawn parch yn y dyfodol.

Mae codi ymwybyddiaeth plant a phobl ifanc am gydraddoldeb, parch a chydysniad yn hanfodol os ydym am roi terfyn ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

"Dw i am i fy merch a'i ffrindiau wybod...fe hoffwn i petawn i wedi cael mwy o wybodaeth...chawson ni ddim addysg, dim ymwybyddiaeth...fe ddylai hyn gael ei ddysgu ym mhob ysgol" (Goroeswr)

"Mae angen i blant wybod beth sy'n iawn a beth sy ddim yn iawn mewn perthynas - beth sy'n dderbyniol a pha help a gwasanaethau sydd ar gael. Mae angen iddo fod yn addas i oed y plant, mewn ysgol gynradd - dylai fod yn orfodol" (Goroeswr)

Rydym yn cydnabod hefyd nad yw pob plentyn a pherson ifanc yn derbyn eu haddysg mewn ysgol neu amgylchedd tebyg, felly byddwn yn ystyried y ffordd orau o gefnogi'r addysg mewn lleoliadau eraill, gan gynnwys cyfadrannau addysg uwch.

Wrth godi ymwybyddiaeth plant a phobl ifanc o berthnasoedd diogel, cyfartal ac iach a'r ffaith fod ymddygiad camdriniol yn annerbyniol bob amser, mae'n hanfodol sicrhau bod gweithdrefnau diogelu yn cael eu dilyn a bod gwasanaethau cymorth arbenigol, sy'n briodol i'w hoedran, ar gael yn hygyrch i bob plentyn neu berson ifanc sy'n profi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig neu drais rhywiol.

"Mae'r plant angen cymorth hefyd. Mae angen iddynt allu cael cymorth i'w helpu i ddeall beth sy'n digwydd" (Goroeswr)

Pa gamau fydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gyflawni'r amcan hwn?

Byddwn yn:

- gweithio gydag ysgolion, awdurdodau lleol a chonsortia addysg rhanbarthol i weithredu'n llawn a monitro'r Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol, gan sicrhau bod gweithwyr addysg proffesiynol yn ymwybodol o arwyddion trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ac yn gallu ymateb yn briodol;
- cynorthwyo ysgolion i addysgu plant a phobl ifanc am bwysigrwydd parch a chydysniad mewn perthnasoedd trwy adeiladu ar y Canllaw Arferion Da: Dull Addysg Gyfan o Fynd i'r Afael â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yng Nghymru²¹ a monitro'r gwaith o'i weithredu.
- sicrhau bod datblygiad y cwricwlwm newydd, ac yn benodol y maes dysgu a phrofiad lechyd a Llesiant, yn mynd ati mewn dull 'addysg gyfan' ac yn helpu plant a phobl ifanc i feithrin yr wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau a fydd yn eu galluogi i ddatblygu perthnasoedd cadarnhaol a phriodol.
- trefnu bod Estyn yn cynnal adolygiad thematig er mwyn deall y dulliau a'r ymatebion cyfredol i drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ac addysg perthnasoedd iach mewn ysgolion;
- cyhoeddi rheoliadau a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol ddarparu gwybodaeth am y camau y maent yn eu cymryd i hyrwyddo diben y Ddeddf wrth gyflawni eu swyddogaethau addysgol.

Amcan 3: Mwy o ffocws ar ddwyn cyflawnwyr i gyfrif, a darparu ymyriadau a chymorth iddynt newid eu hymddygiad gyda phwyslais ar ddiogelwch y dioddefwr

Rydym yn cydnabod na allwn fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn effeithiol heb weithio i atal cyflawnwyr rhag cam-drin yn y lle cyntaf ac mae hwn yn faes gwaith y mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i'w ddatblygu.

Mae rhaglenni sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac sydd wedi'u hachredu yn rhan bwysig o atal, ac mae angen i'r holl ymyriadau o ran cyflawnwyr gael ei seilio ar yr hyn y mae'r ymchwil gyfredol yn ei ddweud wrthym am arferion gorau ac ar dystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio.

Pa gamau fydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gyflawni'r amcan hwn?

- gan weithio gyda rhanddeiliaid perthnasol, byddwn yn datblygu a chyhoeddi canllawiau. Ein bwriad yw y bydd y canllawiau yn cynnwys egwyddorion arfer da sy'n seiliedig ar ymchwil gyfredol a thystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio, ac y bydd yn cynnwys y disgwyliadau lleiaf ar gyfer comisiynu rhaglenni ar gyfer cyflawnwyr, er mwyn sicrhau bod

²¹ <http://livefearfree.gov.wales/policies-and-guidance/good-practice-guide-a-whole-education-approach?lang=cy>

diogelwch, rheoli risg a darparu cymorth i bartneriaid/cyn-bartneriaid yn rhan annatod o unrhyw raglen a gomisiynir yng Nghymru.

- sefydlu panel dysgu Cymru i rannu dysg ac arferion da o Adolygiadau Dynladdiadau Trais Domestig ac adolygiadau diogelu eraill, er mwyn atal niwed pellach.
- byddwn yn gweithio gyda'r Swyddfa Gartref, Comisiynwyr Heddlu a Throseddau a Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol yng Nghymru i sicrhau bod pobl yn cael eu diogelu mewn sefyllfaoedd y tu allan i'r cartref, lle gallent fod yn agored i niwed. Bydd hyn yn cynnwys camau gweithredu o dan gynllun cyflawni Camddefnyddio Sylweddau 2015-18 megis Byrddau Cynllunio Ardal, Partneriaethau Diogelwch Cymunedol Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau, yr Heddlu a Safonau Masnach yn gweithio gyda'i gilydd i rannu gwybodaeth ac i gynnal ymgyrchoedd wedi'u targedu at leihau niwed, mewn perthynas ag Economi'r Nos.

Amcan 4: Rhoi blaenoriaeth i ymyrryd yn gynnar ac atal

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod ymyrryd yn gynnar yn hanfodol er mwyn atal trais rhag gwaethygu ac er mwyn lleihau'r niwed i ddiodefwyr a'u plant. Mae adnabod trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol cyn gynted â phosibl a darparu ymateb priodol er mwyn lleihau'r effaith a'r niwed yn hanfodol er mwyn cyflawni dibenion y Strategaeth hon o ran atal, amddiffyn a chynorthwyo.

“Doeddwn i ddim hyd yn oed yn gwybod y gallwn siarad gyda fy meddyg na dweud wrth neb yn yr ysbyty beth oedd yn digwydd imi” Goroeswr

“Merched fel ni, sydd wedi cael ein cam-drin pan oedden ni'n blant ac sydd nawr naill ai'n gysylltiedig â throseddau oherwydd hynny neu angen mwy o gymorth nag sy'n bosib ei gael ac yn cael ein cam-drin fel oedolion. Mae angen i blant gael cymorth pan fyddan nhw'n cael eu cam-drin - beth sydd ar gael inni y tro cyntaf un mae'n digwydd?” Goroeswr

“Dyw gweithwyr proffesiynol ddim wastad yn gwybod sut i ddelio â datgeliadau a dydyn nhw ddim yn meithrin cysylltiad â menywod sy'n chwilio am help. Fydd menywod ddim yn fodlon dweud wrth rywun os nad ydyn nhw'n teimlo'n gyfforddus gyda nhw, a dim ond ychydig o hyfforddiant y mae'r rhan fwyaf o weithwyr proffesiynol yn ei gael ar hyn” Goroeswr

Rydym yn gwybod bod oedolion yng Nghymru a gafodd eu cam-drin yn gorfforol neu'n rhywiol yn blant, neu a gafodd eu magu mewn cartrefi lle'r oedd cam-drin domestig neu gamddefnyddio alcohol neu gyffuriau yn digwydd, yn fwy tebygol o ddangos ymddygiadau niweidiol i iechyd neu wrthgymdeithasol yn eu bywydau fel oedolion²². Mae ymchwil yn dangos bod straen cronig ar unigolion yn ystod eu plentyndod yn gallu arwain at niwed tymor hir. Gall straen o'r fath gael ei achosi gan gam-drin ac esgeuluso plant,

²² Astudiaeth Profiadau Niweidiol mewn Plentyndod a'u heffaith ar ymddygiad sy'n niweidio iechyd ymysg oedolion Cymru: Mark A. Bellisi, Kathryn Ashtoni, Karen Hughesii, Katharine Fordii, Julie Bishopi a Shantini Paranjothy iechyd Cyhoeddus Cymru; Canolfan Iechyd Cyhoeddus, Prifysgol John Moores Lerpwl

ond gall ddigwydd hefyd wrth iddynt gael eu magu mewn cartrefi lle mae'r plant yn gweld yn rheolaidd broblemau megis cam-drin domestig neu bobl sydd â phroblemau ag alcohol neu sylweddau eraill.²³

Mae'n hanfodol, felly, er budd iechyd a lles ein cenedl yn y tymor hir, ein bod yn ymyrryd yn gynnar i leihau ac atal yr achosion o drais yn erbyn menywod, cam-drin doestig a thrais rhywiol, a lleihau'r niwed i oroeswyr a'u plant.

Mae dulliau arloesol o ymyrryd yn gynnar yn cael eu datblygu ledled Cymru.

Gofyn a Gweithredu – proses o ymholi wedi'i dargedu, i'w weithredu ar draws y Gwasanaethau Cyhoeddus er mwyn adnabod trais yn erbyn mwynywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae'r term 'ymholi wedi'i dargedu' yn disgrifio'r broses o adnabod y dangosyddion ar gyfer trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol fel sbardun i weithwyr proffesiynol ofyn i'w cleientiaid a ydynt wedi'u heffeithio gan unrhyw un o'r materion hyn.

Mae **IRIS** yn rhaglen hyfforddi, cefnogi a chyfeirio ynghylch cam-drin a thrais domestig mewn practis cyffredinol a'i nod yw gwella'r ymateb gofal iechyd tuag at drais yn erbyn menywod a cham-drin domestig. Meysydd craidd y rhaglen yw hyfforddi ac addysgu, ymchwiliadau clinigol, llwybrau gofal a llwybr cyfeirio uwch tuag at wasanaethau cymorth arbenigol. Mae wedi'i anelu at unigolion sy'n dioddef cam-drin domestig. Mae IRIS hefyd yn darparu gwybodaeth i gyflawnwyr ac yn eu cyfeirio.

Mae IRIS yn gydweithrediad rhwng sefydliadau gofal sylfaenol a'r trydydd sector sy'n arbenigo mewn trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae eiriolwr-addysgwr yn gysylltiedig ag arferion cyffredinol ac mae wedi'i leoli mewn gwasanaeth cymorth arbenigol lleol. Mae'r eiriolwr-addysgwr yn gweithio mewn partneriaeth ag arweinydd clinigol lleol i ddarparu'r hyfforddiant ar y cyd ar gyfer practisau.

Nod y model "**Change that Lasts**" yw trawsnewid y ffordd y mae cymunedau, gweithwyr proffesiynol cymwys yr ymddiriedir ynddynt a gwasanaethau arbenigol yn ymateb i drais yn erbyn menywod. Mae'r model hwn ar gyfer ymyrryd yn gynnar i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod wedi'i ddatblygu mewn partneriaeth â gwasanaethau a rhanddeiliaid allweddol. Mae'n cael ei arwain gan anghenion, yn seiliedig ar gryfderau, yn ymatebol i rywedd ac yn cael gwybodaeth am drawma a bydd yn cefnogi goroeswyr a'u plant i gael mynediad at gymorth mwy effeithiol yn gynnar yn eu taith am gymorth. Bydd hefyd yn eu helpu i ddatblygu cydnerthedd, bod yn annibynnol a bod yn rhydd rhag cael eu cam-drin. Wrth wneud hynny, bydd yn sicrhau cymaint â phosibl o bwyntiau datgelu diogel mewn cymunedau lleol ac yn creu ymatebion cymunedol mwy gwybodus a chydnerth i atal trais a cham-drin.

²³ Ibid

Ers 2013 mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn cydweithio gyda NOMS a'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddau ar Lwybr Rheoli Integredig Troseddwyr Cymru i Fenywod, a oleuwyd gan Adroddiad Corston (2007). Dull amlasiantaethol, integredig sy'n canolbwyntio ar fenywod yw hwn ar gyfer gweithio gyda menywod sy'n dod i gysylltiad â'r gyfundrefn cyfiawnder troseddol ac fe'i hadwaenir bellach fel Dull System Gyfan. Hyd yma mae hyn yn cynnwys cynllun dargyfeirio, lleoli Rheolwyr Troseddwyr mewn gwasanaethau cam-drin domestig, trefniadau ar gyfer cynadleddau achos amlasiantaethol a mynediad cydgysylltiedig at gymorth / ymyriadau ar gyfer yr holl fenywod fel rhan o ddarpariaeth leol.²⁴

I gyflawni'r amcan hwn byddwn yn;

- gweithio ar draws y Llywodraeth a chyda rhanddeiliaid allweddol i ddatblygu dulliau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, a'u prif ffrydio i sicrhau bod ymyrryd yn gynnar ac atal yn digwydd yn gyson a'u bod yn arfer craidd ar hyd a lled Cymru
- cyhoeddi canllawiau statudol ac yn gweithredu'n llawn yr egwyddorion "Gofyn a Gweithredu" gan gefnogi gweithwyr proffesiynol priodol o fewn awdurdodau perthnasol i ddeall arwyddion trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, i ddefnyddio ymchwiliad wedi'i dargedu ac i weithredu drwy gyfeirio'r unigolyn yn briodol;
- hyrwyddo cyfleoedd i ymyrryd yn gynnar ac atal a datblygu gwasanaethau arloesol
- gweithio gyda'r Cynghorydd Cenedlaethol, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, gwasanaethau arbenigol, lechyd Cyhoeddus Cymru a gwasanaethau i oedolion a phlant i sicrhau bod teuluoedd a nodwyd eu bod angen cymorth i fyw gyda phrofiadau andwyol yn ystod plentynod sy'n ymwneud â cham-drin domestig a thrais rhywiol yn cael mynediad at ymyriadau sydd eisoes yn bodoli ac sy'n cael eu cyflawni gan wasanaethau arbenigol.

²⁴ Enghraifft pellach o fodel atal yw Model Caerdydd ar gyfer Atal Trais: Grŵp Ymchwil Trais a Chymdeithas; yr Athro Jonathan Shepherd, Prifysgol Caerdydd

7. AMDDIFFYN

Mae amddiffyn yn agwedd hollbwysig ar ein gwaith; mae angen inni gydweithio fel gwasanaeth cyhoeddus i amddiffyn y rhai sy'n profi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ar hyn o bryd rhag dioddef niwed pellach, ac amddiffyn unrhyw blant yn y teulu.

Mae hyn yn galw am ymateb cydgysylltiedig a chydweithredol lle bydd arbenigedd a phrofiad y sector arbenigol trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol a goroeswyr yn hollbwysig inni ei gael yn iawn.

Dyma y mae goroeswyr wedi'i ddweud wrthym:

"Mynd i wasanaeth lloches ... dyna'r peth gorau imi ei wneud erioed. Fe achubodd hynny fy mywyd." (Goroeswr)

"Fe achubodd y menywod yn y gwasanaeth hwn fy mywyd. Doeddwn i ddim yn gallu ymdopi ac fe roddon nhw fy mywyd yn ôl imi. Roeddwn yn byw mewn sefyllfa afreal ac roeddent hwy'n deall. Fe wnaethon nhw imi deimlo'n llai ynysig ac fe helpon nhw fi i ddod o hyd i mi fy hun eto." (Goroeswr)

Yn y blynyddoedd diwethaf, gwnaed ymdrech i wella ymateb pob asiantaeth cyfiawnder troseddol yng Nghymru i'r sawl sy'n rhoi gwybod am drosedd. Mae angen inni sicrhau bod goroeswyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn cael gwasanaeth o safon a sicrhau eu bod yn ffyddiog y bydd pobl yn eu credu ac y byddant yn cael cymorth gan wasanaethau arbenigol drwy'r system cyfiawnder troseddol.

Mae un o'n hamcanion yn cefnogi'r diben o ran amddiffyn y rhai sy'n profi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ar hyn o bryd:

Amcan 5: Hyfforddi gweithwyr proffesiynol perthnasol i ddarparu ymatebion effeithiol, amserol a phriodol i ddiodefwyr a goroeswyr

Pa gamau fydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gyflawni'r amcan hwn?

- Byddwn yn gweithredu'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol²⁵ yn llawn, gan sicrhau bod gweithwyr proffesiynol ym mhob awdurdod perthnasol (gan gynnwys iechyd, awdurdodau lleol, Ymddiriedolaethau'r GIG a Gwasanaethau Tân ac Achub) yn cael cymorth i gynyddu eu dealltwriaeth a'u gwybodaeth am drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, gan arwain at ymatebion gwell i ddatgeliadau;
- Byddwn yn edrych ar y cysylltiadau rhwng y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol a hyfforddiant a gynigiwyd gan heddluoedd a'r Coleg

²⁵ <http://gov.wales/docs/dsjlg/publications/commsafety/160317-national-training-framework-guidance-cy.pdf>

Plismona, gan nodi'r bylchau mewn gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth i fynd i'r afael â cham-drin domestig yn effeithiol;²⁶

- Byddwn yn rhoi "Gofyn a Gweithredu" ar waith yn llawn, gan gynorthwyo gweithwyr proffesiynol priodol mewn awdurdodau perthnasol i ddeall arwyddion trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, i ddefnyddio dull holi wedi'i dargedu ac i weithredu trwy atgyfeirio'r person yn briodol;
- Gweithio ochr yn ochr â'r Bwrdd Diogelu Cenedlaethol i gyfrannu ymhellach at y dulliau gweithredu ar gyfer diogelu yng Nghymru pan fyddant yn ymwneud â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol;
- Byddwn yn parhau i gydweithio â'r Heddlu, Comisiynwyr Heddlu a Throsedd, Gwasanaeth Eryl y Goron, cyfreithwyr ac ynadon, y llysoedd, y gwasanaeth prawf a charchardai i wella ymateb pob asiantaeth cyfiawnder troseddol yng Nghymru i'r sawl sy'n rhoi gwybod i'r heddlu am drosedd;
- Byddwn yn gweithio gyda'r Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd (CAFCASS) Cymru i sicrhau bod staff yn adnabod ac yn asesu'r risgiau ac effeithiau cysylltiedig ac yn atgyfeirio'n briodol i wasanaethau cymorth lleol;
- Gweithio gydag ysgolion i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r canllawiau ar Gadw Dysgwyr yn Ddiogel, sy'n nodi bod rhaid i ysgol gynnal ethos o ddiogelu a hybu lles plant a phobl ifanc, ac amddiffyn staff;
- Hybu'r defnydd o lwybrau atgyfeirio integredig lleol i sicrhau bod pobl yn cael eu cyfeirio at y gwasanaeth y mae ei angen arnynt;
- Monitro ac adrodd yn ôl ar y gwaith o weithredu Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, a fydd yn ei gwneud yn bosibl targedu'r sawl sy'n cyflawni cam-drin domestig a'u troi allan, gan alluogi'r dioddefwr ac aelodau eraill o'r teulu i aros yn eu cartref os yw'n ddiogel gwneud hynny; a
- Datblygu a chyhoeddi canllawiau amlasiantaethol i annog a chefnogi mwy o gydweithio a rhannu gwybodaeth.

²⁶ Increasingly everyone's business: A progress report on the police response to domestic abuse: HMIC 2015 <https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmic/wp-content/uploads/increasingly-everyones-business-domestic-abuse-progress-report.pdf>

8. CYMORTH

Mae rhoi cymorth i bobl yr effeithir arnynt gan drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn gallu bod yn gymhleth, gan fod profiadau ac anghenion pobl yn gallu bod yn dra gwahanol. Fodd bynnag, mae angen inni hybu diwylliant cefnogol, a hwnnw'n cael ei ategu gan ystod o wasanaethau sydd yn y sefyllfa orau i ymateb i anghenion unigolion a theuluoedd.

Mae goroeswyr wedi dweud wrthym bod cymorth yn hanfodol:

"Y grŵp oedd y peth a oedd fwyaf o gymorth gan ei fod wedi gwneud imi deimlo'n llai ynysig. Cefais gyswllt â menywod eraill ac fe sylweddolais am y tro cyntaf mewn blynyddoedd nad fi oedd yr unig un oedd yn byw gyda hyn." (Goroeswr)

"Mae arnom angen mwy o gymorth inni fel nad ydym yn cael ein hystyried yn achos i'w gau neu i'w drosglwyddo i rywun arall; mae gennym ni anghenion yn ein rhinwedd ein hunain, a dylai cymorth fod ar gael am gyhyd ag y mae ei angen arnom, heb gyfyngiad amser." (Goroeswr)

Roedd yn anodd iawn cael help – dydy pobl ddim yn credu bod dynion yn dioddef hefyd"

"Mae bob un ohonom eisiau gweld asiantaethau'n ein trin fel unigolion gydag anghenion. Mae sectorau ac asiantaethau'n cymryd drosodd ac rydyn ni'n gorfod dilyn eu trefn nhw. Mae angen newid y drefn yn llwyr fel bod gennym wasanaeth cydgysylltiedig, o'r dechrau i'r diwedd, sydd wedi ei drefnu o gwmpas ein hanghenion ni."

"Y peth gwaethaf oedd na chafodd y plant opsiwn i siarad gyda rhywun. Fydden nhw ddim yn dweud unrhyw beth wrth athro/athrawes neu swyddog heddlu... ond pe bai gweithiwr cymorth yno ar gyfer pant byddent wedi siarad gyda'r gweithiwr hwnnw." (Goroeswr)

Nod Llywodraeth Cymru yw rhoi anogaeth ar gyfer gwasanaethau sy'n effeithiol, yn cael eu cynnal ac o safon sy'n gyson yn uchel ledled Cymru. Mae ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn allweddol i sicrhau bod y rhai sy'n profi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn cael y gwasanaethau mwyaf effeithiol posibl.

Gwyddom fod *sut* y mae gwasanaethau'n cael eu darparu yr un mor bwysig â *beth* sy'n cael ei ddarparu. Mae angen ymatebion amserol sy'n ymateb i anghenion lluosog heb farnu. Mae angen inni gynorthwyo goroeswyr i ddod o hyd i'r ffordd ar hyd llwybr at wasanaethau sy'n aml yn gymhleth a'u cynorthwyo i ddatblygu strategaethau ymdopi cadarnhaol, a'u galluogi i gael eu grymuso ac i'w hamddiffyn eu hunain.

Mae gan wasanaethau cyhoeddus, mudiadau gwirfoddol a chymunedol a gwasanaethau arbenigol trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais

rhywiol annibynnol rôl allweddol i'w chwarae wrth ddarparu ystod o opsiynau cymorth. Bydd dull cydweithredol yn sicrhau mwy o ffocws ar ddarparu gwasanaethau a bydd yn hwyluso mwy o werth am arian a hyblygrwydd gan wasanaethau a gyllidir i ddiwallu angen lleol.

Nid yw goroeswyr yn profi trais mewn seilos ac ni ddylai asiantaethau ymateb mewn seilos ychwaith; mae angen darpariaeth hygyrch a holistaidd; mae angen i wasanaethau a phartneriaeth fynd i'r afael â phob math o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol mewn ffordd integredig a chydgyssylltiedig²⁷.

Mae'r amcan canlynol yn ategu'r diben o gefnogi'r rhai sy'n profi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol:

Amcan 6: Rhoi mynediad cyfartal i ddioddefwyr at wasanaethau ledled Cymru, a'r rheini'n wasanaethau holistaidd o anawdd uchel y darperir adnoddau priodol ar eu cyfer, sy'n seiliedig ar gryfderau, sy'n cael eu harwain gan anghenion ac sy'n ymatebol i rywedd

Pa gamau fydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gyflawni'r amcan hwn?

- Parhau i ariannu Llinell Gymorth Byw Heb Ofn, gan ddarparu cymorth cyfrinachol 24 awr a chefnogaeth i'r sawl sy'n destun trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol;
- Cyhoeddi canllawiau i Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol fel sail i ddatblygu strategaethau lleol sy'n ofynnol o dan y Ddeddf, gan gynnwys asesiadau o anghenion;
- Byddwn yn gweithio gydag Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol wrth iddynt ddatblygu eu strategaethau lleol dan y Ddeddf a chynnal dadansoddiad o anghenion, gan gynnwys mapio eu gwasanaethau presennol, a datblygu dulliau comisiynu newydd, i sicrhau bod y gwasanaethau y maent yn eu darparu'n diwallu angen eu cymuned;
- Cyhoeddi canllawiau statudol ar gyfer awdurdodau perthnasol ynghylch comisiynu gwasanaethau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, gan adeiladu ar y canllaw arferion da "Tackling Violence against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence – A Collaborative Commissioning Toolkit for Services in Wales";
- Cydweithio â rhanddeiliaid i ddatblygu model ariannu cynaliadwy ar gyfer darparu gwasanaethau arbenigol trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol i ategu'r gwaith o gyflawni'r Strategaeth hon;
- Cynnal adolygiad o'r cyllid presennol gan Lywodraeth Cymru sy'n cyfrannu at wasanaethau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol i sicrhau ein bod yn defnyddio'r cyllid sydd ar gael yn y ffordd orau i gynorthwyo unigolion a theuluoedd sy'n destun trais yn

²⁷ Mae Model Caerdydd ar gyfer Atal Trais: Grŵp Ymchwil Trais a Chymdeithas; yr Athro Jonathan Shepherd, Prifysgol Caerdydd yn enghraifft o ymateb amlasiantaethol.

erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, a chyflawni amcanion y Strategaeth hon;

- Parhau i hybu safonau ansawdd gwasanaeth a fframwaith achredu ar gyfer gwasanaethau arbenigol;
- Sicrhau llwybrau cymorth integredig i ddiwallu anghenion dioddefwyr sy'n profi anfanteision lluosog; a
- Parhau i annog sefydliadau i fabwysiadu polisiâu trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ar gyfer eu gweithle.

9. MESUR CYNNYDD Y STRATEGAETH

Mae'n ofynnol o dan y Ddeddf fod Gweinidogion Cymru'n cyhoeddi adroddiadau blynyddol ar y cynnydd a wneir tuag at gyflawni'r amcanion yn y Strategaeth Genedlaethol a diben y Ddeddf. Bydd yr adroddiad blynyddol hefyd yn adrodd ar gynnydd o ran y fframwaith cyflawni a fydd yn ategu'r strategaeth hon.

Mae Adran 11 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol bod Gweinidogion Cymru yn 'cyhoeddi dangosyddion cenedlaethol y gellir eu cymhwysu at y diben o fesur cynnydd tuag at gyflawni diben y Ddeddf hon.'

Bydd y dangosyddion cenedlaethol yn mesur y cynnydd a wneir ar y cyd yn genedlaethol o ran cyflawni diben y Ddeddf. Mae datblygu dangosyddion cenedlaethol yn rhoi cyfle i weithio tuag at fframwaith mesur cydgysylltiedig a chydlynol a phrif ffrydio data trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol i feysydd polisi ehangach.

Mesurau o gynnydd ac nid targedau fydd y dangosyddion cenedlaethol. Rydym am fesur yr agweddau pwysicaf a fydd yn ein galluogi i gael gwell dealltwriaeth o'r cynnydd a wneir yng Nghymru a chofnodi'r cynnydd hwnnw. Rydym am ganolbwyntio ar y lle yr ydym am fod, a dyna pam ein bod yn defnyddio'r dull seiliedig-ar-ganlyniadau hwn.

Bydd y Dangosyddion Cenedlaethol yn helpu'r cyrff cyhoeddus penodedig, ynghyd â rhanddeiliaid ehangach, i ddeall i ba raddau y mae'r weledigaeth gyffredin, a nodir yn y Strategaeth Genedlaethol, yn cael ei gwireddu.

Dylai data lleol, a all fod yn ddadgyfuniad o unrhyw ddata cenedlaethol, gael ei ddefnyddio i fesur llwyddiant strategaethau lleol.

Bydd y dangosyddion cenedlaethol, ynghyd â'r adroddiadau ar gynnydd y cyfeirir atynt uchod, yn dangos pa mor effeithiol yr ydym wedi cyflawni'r amcanion a nodir yn y Strategaeth hon.

1. Yr iaith a ddefnyddir yn y strategaeth genedlaethol

Mae Adran 24 o'r Ddeddf yn darparu'r diffiniadau i Gymru

- 1) ystyr "cam-drin" yw cam-drin corfforol, rhywiol, seicolegol, emosiynol neu ariannol.
- 2) ystyr "cam-drin domestig" yw cam-drin a ddaw o du person sy'n gysylltiedig neu wedi bod yn gysylltiedig â'r dioddefwr.
- 3) Mae person yn gysylltiedig â pherson arall at ddibenion y diffiniad o "cam-drin domestig" os ydynt –
 - Yn briod â'i gilydd neu wedi bod yn briod â'i gilydd;
 - Yn bartneriaid sifil i'w gilydd neu wedi bod yn bartneriaid sifil i'w gilydd;
 - Yn byw gyda'i gilydd neu wedi bod yn byw gyda'i gilydd mewn perthynas deuluol barhaus (pa un a ydynt o rywiau gwahanol neu o'r un rhyw);
 - Yn byw neu wedi byw ar yr un aelwyd; ac at y diben hwn mae person yn aelod o aelwyd person arall –
 - Os yw'r person fel arfer yn byw gyda'r person arall fel aelod o'i deulu, neu
 - Os gellid disgwyl yn rhesymol i'r person fyw gyda'r person arall hwnnw;
 - Yn berthnasau i'w gilydd;
 - Wedi cytuno i briodi ei gilydd (pa un a yw'r cytundeb hwnnw wedi ei derfynu ai peidio);
 - Wedi ymrwymo i gytundeb partneriaeth sifil rhyngddynt (pa un a yw'r cytundeb hwnnw wedi ei derfynu ai peidio);
 - Mewn perthynas bersonol agos â'i gilydd, neu wedi bod mewn perthynas o'r fath;
 - Mewn perthynas â phlentyn, y naill a'r llall yn rhiant i'r plentyn neu â chyfrifoldeb rhiant am y plentyn, neu wedi bod â chyfrifoldeb o'r fath.
- 4) Os yw plentyn wedi ei fabwysiadu neu'n dod o fewn isadran (5), mae dau berson hefyd yn gysylltiedig â'i gilydd at ddibenion y diffiniad o "cam-drin domestig" -
 - Os yw un yn rhiant naturiol i'r plentyn neu'n rhiant i riant naturiol o'r fath, a
 - Y person arall yw –
 - Y plentyn, neu
 - Person sydd wedi dod yn rhiant i'r plentyn yn rhinwedd gorchymyn mabwysiadu, sydd wedi gwneud cais am orchymyn mabwysiadu, neu y mae'r plentyn wedi ei leoli gydag ef ar gyfer ei fabwysiadu ar unrhyw adeg.

5) Mae plentyn yn dod o fewn y cofnod hwn –

- Os yw asiantaeth fabwysiadu, o fewn ystyr adran 2 o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002, wedi ei hawdurdodi i leoli'r plentyn ar gyfer ei fabwysiadu o dan adran 19 o'r Ddeddf honno (gosod plentyn â chydysyniad rhiant) neu'r plentyn wedi dod yn destun gorchymyn o dan adran 21 o'r Ddeddf honno (gorchymynion lleoli), neu
- Os yw'r plentyn yn cael ei ryddhau ar gyfer ei fabwysiadu yn rhinwedd gorchymyn a wneir –
 - Yng Nghymru a Lloegr, o dan adran 18 o Ddeddf Mabwysiadu 1976; neu
 - Yng Ngogledd Iwerddon, o dan Erthygl 17(1) neu 18(1) o Orchymyn Mabwysiadu (Gogledd Iwerddon) 1987; neu
 - Os yw'r plentyn yn destun gorchymyn parhauster yn yr Alban sy'n cynnwys rhoi'r awdurdod i fabwysiadu.

Yn yr adran hon —

- ystyr “gorchymyn mabwysiadu” yw gorchymyn mabwysiadu o fewn yr ystyr a roddir gan adran 72(1) o Ddeddf Mabwysiadu 1976 neu adran 46(1) o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002;
- ystyr “plentyn” yw person o dan 18 mlwydd oed;
- Mae i “cytundeb partneriaeth sifil yr ystyr a roddir gan adran 73 o Ddeddf Partneriaeth Sifil 2004 (p.33);
- ystyr “anffurfio organau cenhedlu benywod” yw gweithred sy'n drosedd dan adrannau 1, 2 neu 3 o Ddeddf Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod 2003 (p.31);
- ystyr “cam-drin ariannol” yw —
 - (a) bod arian neu eiddo arall yn cael ei ddwyn,
 - (b) bod person yn cael ei dwyllo,
 - (c) bod person yn cael ei roi o dan bwysau mewn perthynas ag arian neu eiddo arall, a
 - (d) bod arian neu eiddo arall person yn cael ei gamddefnyddio;
- ystyr “aflonyddu” yw llwybr ymddygiad gan berson y mae'n gwybod, neu y dylai wybod, ei fod yn gyfystyr ag aflonyddu ar y llall; ac at ddiben y diffiniad hwn —
 - (a) dylai person wybod bod ei ymddygiad yn gyfystyr ag aflonyddu, neu'n cynnwys aflonyddu, pe bai person rhesymol sy'n meddu ar yr un wybodaeth o'r farn bod y llwybr ymddygiad yn gyfystyr ag aflonyddu ar berson arall, neu'n cynnwys aflonyddu ar berson arall, a
 - (b) mae “ymddygiad” yn cynnwys siarad;
- ystyr “camfanteisio rhywiol” yw rhywbeth a wneir i berson neu mewn perthynas â pherson —
 - (a) sy'n cynnwys cyflawni trosedd o dan Ran 1 o Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003 (p.42), fel y mae'n cael effaith yng Nghymru a Lloegr, neu

(b) a fyddai'n cynnwys cyflawni trosedd o'r fath pe bai'n cael ei wneud yng Nghymru a Lloegr;

- mae i "cyfrifoldeb rhiant" yr ystyr a roddir gan adran 3 o Ddeddf Plant 1989 (p.41);
- ystyr "perthynas", mewn perthynas â pherson, yw rhiant, tad-cu/taid, mam-gu/nain, plentyn, wŷr, wyres, brawd, hanner brawd, chwaer, hanner chwaer, ewythr, modryb, nai neu nith y person (gan gynnwys unrhyw berson sydd neu sydd wedi bod yn y berthynas honno yn rhinwedd priodas neu bartneriaeth sifil neu berthynas deuluol barhaus).

6) ystyr "trais ar sail rhywedd" yw:

(a) trais, bygythiadau o drais neu aflonyddu sy'n codi yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o werthoedd, credoau neu arferion sy'n ymwneud â rhywedd neu gyfeiriadedd rhywiol;

(b) anffurfio organau cenhedlu benywod;

(c) gorfodi person (pa un ai drwy rym corfforol neu orfodi drwy fygythiadau neu ddulliau seicolegol eraill) i ymrwymo i seremoni briodas grefyddol neu sifil (pa un a yw'n rhwymo mewn cyfraith ai peidio);

- ystyr "trais rhywiol" yw camfanteisio rhywiol, aflonyddu
- rhywiol neu fygythiadau o drais o natur rywiol.

Mae'r Ddeddf yn darparu diffiniad cymharol eang o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol a fydd yn ei gwneud yn bosibl arfer swyddogaethau dan y Ddeddf mewn perthynas â thrais neu gam-drin sy'n broblem yng Nghymru yn ôl y dystiolaeth.

Mae'r term rheolaeth orfodol wedi'i gynnwys o fewn y diffiniad o gam-drin, gan fod arfer rheolaeth orfodol yn galw am ryw fath o gam-drin corfforol, emosiynol, seicolegol neu ariannol.

2. Rhestr Termau

Cam-drin (fel y'i diffinnir gan y Ddeddf): Cam-drin corfforol, rhywiol, seicolegol, emosiynol neu ariannol

Gofyn a Gweithredu: Proses o holi wedi'i dargedu ar draws y Gwasanaeth Cyhoeddus yng Nghymru mewn perthynas â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol

Cydweithio: Mae'r term "cydweithio" yn cyfeirio at ymateb rhyngasiantaethol cydgysylltiedig trwy strwythur ffurfiol, neu fforymau, lle mae'r prif ffocws ar ddiogelu'r dioddefwr, lleihau erledigaeth eilaidd a dwyn cyflawnwyr i gyfrif. Dylai'r fforymau:

- (a) fabwysiadu polisïau a gweithdrefnau cyson, ar y cyd, gan gynnwys asesiad risg a chynllun rheoli risg a diogelwch cytunedig, sy'n cydgyssylltu ac yn safoni'r ymyriadau proffesiynol i bawb sydd mewn perygl ac sy'n lleihau'r risg o niwed;
- (b) rhannu gwybodaeth i gynyddu diogelwch, iechyd a llesiant dioddefwyr/goroeswyr – oedolion a'u plant;
- (c) cydweithio i leihau erledigaeth eilaidd;
- (d) gwella atebolrwydd asiantaethau;
- (e) gwella cymorth, gan gynnwys hyfforddiant, i'r holl staff sy'n gysylltiedig ag achosion o gam-drin domestig
- (f) penderfynu a yw'r cyflawnwr honedig yn achosi risg sylweddol i unrhyw unigolyn penodol neu i'r gymuned yn gyffredinol.

Cam-drin domestig (fel y'i diffinnir gan y Ddeddf): Ystyr cam-drin yw lle mae'r dioddefwr wedi bod yn gysylltiedig â'r camdriniwr. Mae person yn gysylltiedig â pherson arall at ddiben y diffiniad o "gam-drin domestig" os yw'n cyd-fynd â'r diffiniad yn adran 21(2) neu (3) o Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.

Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod: gweithred sy'n drosedd dan adrannau 1, 2 neu 3 o Ddeddf Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod 2003 (p. 31)

Trais ar sail rhywedd (fel y'i diffinnir gan y Ddeddf):

- (a) trais, bygythiadau o drais neu aflonyddu sy'n codi yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o werthoedd, credoau neu arferion sy'n ymwneud â rhywedd neu gyfeiriadedd rhywiol;
- (b) anffurfio organau cenhedlu benywod;
- (c) gorfodi person (pa un ai drwy rym corfforol neu orfodi drwy fygythiadau neu ddulliau seicolegol eraill) i ymrwymo i seremoni briodas grefyddol neu sifil (pa un a yw'n rhwymo mewn cyfraith ai peidio);

Aflonyddu: llwybr ymddygiad gan berson y mae'n gwybod, neu y dylai wybod, ei fod yn gyfystyr ag aflonyddu ar y llall; ac at ddiben y diffiniad hwn:

- (a) dylai person wybod bod ei ymddygiad yn gyfystyr ag aflonyddu, neu'n cynnwys aflonyddu, pe bai person rhesymol sy'n meddu ar yr un wybodaeth o'r farn bod y llwybr ymddygiad yn gyfystyr ag aflonyddu ar berson arall, neu'n cynnwys aflonyddu ar berson arall, a
- (b) mae "ymddygiad" yn cynnwys siarad.

Cynghorydd Trais Domestig Annibynnol (IDVA): Gweithiwr arbenigol hyfforddedig sy'n rhoi cymorth gyda gwaith achosion yn y tymor byr a chanolig ar gyfer dioddefwyr cam-drin domestig risg uchel

Awdurdod Lleol (fel y'i diffinnir yn y Ddeddf): Cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol

MARAC: Cynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg

Gwasanaeth Cyhoeddus: Ystyr gwasanaethau cyhoeddus yw gwasanaethau a ddarperir er budd y cyhoedd. Gall hyn gynnwys gwasanaethau a ddarperir trwy'r trydydd sector, trwy fenter gymdeithasol neu drwy wasanaethau ar gontract allanol.

Awdurdodau perthnasol: cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol, Byrddau Iechyd Lleol, awdurdodau tân ac achub ac ymddiriedolaethau'r GIG.

Camfanteisio rhywiol (fel y'i diffinnir gan y Ddeddf): rhywbeth a wneir i berson neu mewn perthynas â pherson
(a) sy'n cynnwys cyflawni trosedd o dan Ran 1 o Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003 (p.42), fel y mae'n cael effaith yng Nghymru a Lloegr, neu
(b) a fyddai'n cynnwys cyflawni trosedd o'r fath pe bai'n cael ei wneud yng Nghymru a Lloegr;

Trais Rhywiol (fel y'i diffinnir gan y Ddeddf): rhywiol, aflonyddu rhywiol neu fygythiadau o drais o natur rhywiol.

Y Ddeddf: Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015